**LSIYW00**
# Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid
Cyflwyniad

## Cynnwys


**Trosolwg**

**Meini Prawf Perfformiad a Gwybodaeth a Dealltwriaeth**

**Cwmpas:**
*** Pwrpas Allweddol**
*** Map Swyddogaethol Cryno**
*** Map Swyddogaethol i fapio Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol**

**Gwerthoedd**

**Geirfa**

**Dolenni i Safonau eraill**

**Dolenni Allanol**

**Gwybodaeth o'r gyfres**

## Suite Overview

Nod y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer Gwaith Ieuenctid yw diffinio'r cymwyseddau sydd eu hangen i gyflawni'r swyddogaethau a wneir gan y gweithlu gwaith ieuenctid. Bwriedir i'r NOS ddisgrifio cymwyseddau sydd eu hangen i gwblhau'r tasgau sy'n ofynnol yn y sector ieuenctid.

Nid yw'r NOS wedi eu cynllunio i ddisgrifio unrhyw rôl benodol mewn gwaith ieuenctid. Mae diffiniadau rôl fel arfer yn seiliedig ar nifer o'r swyddogaethau a ddiffinnir yn y map swyddogaethol, ac felly gall rôl benodol fod yn gysylltiedig â nifer o Safonau.

Nid oes unrhyw ddisgwyliad y bydd rôl swydd unigol yn cwmpasu'r holl ofynion perfformiad ar draws pob NOS, ond yn hytrach bydd swyddi penodol yn defnyddio'r NOS hynny sy'n briodol i'w rôl.

Nid yw'r NOS ar gyfer Gwaith Ieuenctid yn cyfateb yn union i gymwysterau, ond fe'u defnyddir i ddeillio cymwysterau seiliedig ar gymhwysedd perthnasol ar gyfer y sector gwaith ieuenctid. Gellir defnyddio'r NOS, fel y safonau perfformiad a gwybodaeth a gytunwyd sydd eu hangen mewn ymarfer gwaith ieuenctid ledled y Deyrnas Unedig, gan gyflogwyr i lywio disgrifiadau swydd, ystyried anghenion sgiliau a nodi meysydd i'w gwella, a gallant hefyd gefnogi datblygiad proffesiynol a pharhaus unigolyn.

Bydd gan y gwahanol gyd-destunau ar gyfer ymarfer gwaith ieuenctid yn cael dylanwad ar sut mae'r NOS yn cael eu cymhwyso. Dylid ystyried y cyd-destun cenedlaethol, rhanbarthol, lleol a gwleidyddol perthnasol, yn ogystal â safonau perfformiad neu gymhwysedd arall perthnasol wrth ddarllen a chymhwyso'r NOS Gwaith Ieuenctid.

Dylid nodi bod yr ymagwedd tuag at waith ieuenctid yn amrywio ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig. Mae'r NOS wedi eu hysgrifennu i ganiatáu ar gyfer y gwahaniaethau ac i alluogi cymhwyso gwahanol derminoleg fel y bo'n briodol.

Fodd bynnag, waeth beth yw'r cyd-destun cenedlaethol, yn ganolog i'r holl ymarfer gwaith ieuenctid mae Gwerthoedd Gwaith Ieuenctid, a ddatblygwyd gyda'r sector yn 2007. Mae'r Gwerthoedd yn disgrifio ymagwedd i waith ieuenctid a disgwylir y bydd pawb sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn gweithio o fewn y gwerthoedd. Mae'r Gwerthoedd Gwaith Ieuenctid wedi eu disgrifio yn y Cyflwyniad hwn.

## Performance criteria

a

## Knowledge and understanding

Mae pob Safon Alwedigaethol Genedlaethol yn cynnwys nifer o feini prawf perfformiad y dylai unigolyn arddangos i fod yn gymwys yn y sector, yn ogystal â'r datganiadau gwybodaeth a dealltwriaeth ategol.

Dylid nodi nad oes yna berthynas uniongyrchol rhwng maen prawf perfformiad unigol a datganiad gwybodaeth ac/neu ddealltwriaeth, gyda datganiadau gwybodaeth yn ategu y cyfan o bob Safon Alwedigaethol Genedlaethol.

## Additional Information

### Scope/range

Mynegir cwmpas neu gyrhaeddiad y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid hyn gan y Pwrpas Allweddol a'r Map Swyddogaethol.

Mae'r map swyddogaethol yn disgrifio'r swyddogaethau a phrif weithgareddau cysylltiedig a gyflawnir gan y rhai sy'n gweithio o fewn gwaith ieuenctid. Mae'n nodi'r ystod o swyddogaethau a gyflawnir ar draws gwaith ieuenctid, ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Mae Map Swyddogaethol 2012 yn seiliedig ar adolygiad o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid, a gyhoeddwyd gyntaf yn 2002 a'u diweddaru yn 2008. Cyflawnwyd yr adolygiad i sicrhau bod datblygiadau a newidiadau sydd wedin effeithio ar ymarfer gwaith ieuenctid ers 2007 wedi eu cynnwys a'u hadlewyrchu yn y swyddogaethau a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol dilynol ar gyfer Gwaith Ieuenctid.

### Key Purpose

Cytunwyd ar y Pwrpas Allweddol gan y sector gwaith ieuenctid yn ystod 2008, ac mae'n cwmpasu deilliannau cyflawni gwaith ieuenctid (beth a gyflawnir).

Pwrpas allweddol gwaith ieuenctid yw……

*'Galluogi pobl ifanc i ddatblygu'n gyfannol, gan weithio gyda hwy i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, i'w galluogi i ddatblygu eu llais, eu dylanwad a'u safle mewn cymdeithas i gyrraedd eu llawn botensial'*

Mae'r datganiad hwn yn cyfeirio at ddatblygiad cyfannol pobl ifanc, gan gydnabod y gall datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol hefyd gynnwys, er enghraifft, ddatblygiad corfforol, gwleidyddol ac ysbrydol.

### Values at the core of youth work

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o'r sector o fewn gwaith ieuenctid, cytunwyd ar gyfres o werthoedd sy'n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau'n gysylltiedig. Mae'r gwerthoedd hyn wrth graidd y gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu'r safonau; gan gydnabod bod ymagwedd a arweinir gan berson ifanc yn ganolog i unrhyw waith ieuenctid.

Cydnabyddir hefyd bod angen gosod y gwerthoedd hyn o fewn y cyd-destun lleol, cymdeithasol a gwleidyddol lle cyflawnir gweithgareddau gwaith ieuenctid, ac y bydd angen i weithiwyr ieuenctid fod yn ymwybodol ohonynt. Mae'r gwerthoedd hyn hefyd yn dangos sut mae gwaith ieuenctid yn ymwneud yn natblygiad cyfannol pobl ifanc, ac maent fel a ganlyn:

## Youth Work Values:

**Cyfranogiad ac ymglymiad gweithredol**

- Mae pobl ifanc yn dewis cymryd rhan, yn bennaf am eu bod eisiau ymlacio, cwrdd â ffrindiau, creu perthnasau newydd, cael hwyl, a chanfod cefnogaeth,
- Mae'r gwaith yn dechrau o ble mae'r bobl ifanc mewn perthynas â'u gwerthoedd, eu barn a'u hegwyddorion eu hunain, yn ogystal ag o'u gofod personol a chymdeithasol eu hunain,
- Mae'n ceisio mynd tu hwnt i ble mae pobl ifanc yn cychwyn, i ehangu eu gorwelion, hyrwyddo cyfranogiad a gwahodd ymrwymiad cymdeithasol, yn arbennig trwy eu hannog i fod yn feirniadol a chreadigol yn eu hymatebion i'w profiad a'r byd o'u hamgylch,

**Cyfiawnder, amrywiaeth a chynhwysiant:**

- Mae'n trin pobl ifanc â pharch, gan werthfawrogi pob unigolyn a'u gwahaniaethau, a hyrwyddo derbyn a deallt eraill, tra'n herio ymddygiad a syniadau gormesol,
- Mae'n parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol trwy gefnogi a chryfhau cred pobl ifanc ynddynt eu hunain, a'u gallu i dyfu a newid trwy amgylchedd grŵp cefnogol,
- Mae wedi ei ategu gan egwyddorion cyfiawnder, amrywiaeth a chyd-ddibyniaeth,

**Partneriaeth gyda phobl ifanc ac eraill**

- Mae'n cydnabod, parchu ac yn weithredol ymatebol i'r rhwydweithiau ehangach o gyfoedion, cymunedau, teuluoedd a diwylliannau sy'n bwysig i bobl ifanc, a thrwy'r rhwydweithiau hyn yn ceisio helpu pobl ifanc i gyflawni perthynas gryfach a hunaniaeth gyfunol, trwy hyrwyddo cynhwysiant,
- Mae'n gweithio mewn partneriaeth â phobl ifanc ac asiantaethau eraill sy'n cyfrannu i ddatblygiad cymdeithasol, addysgol a phersonol pobl ifanc,
- Mae'n cydnabod y person ifanc fel partner yn y broses ddysgu, gan ategu addysg ffurfiol, hyrwyddo eu mynediad at gyfleoedd dysgu sy'n eu galluogi i gyflawni eu potensial,

**Datblygiad personol, cymdeithasol a gwleidyddol:**

- Mae'n ymwneud â sut mae pobl ifanc yn teimlo, ac nid yn unig o ran beth maent yn ei wybod ac yn gallu ei wneud,
- Mae'n ymwneud â hwyluso a grymuso llais pobl ifanc, eu hannog a'u galluogi i ddylanwadu ar yr amgylchedd y maent yn byw ynddo
- Mae'n diogelu lles pobl ifanc, ac yn rhoi iddynt amgylchedd diogel i archwilio eu gwerthoedd, credoau, syniadau a phroblemau

Mae'r gwerthoedd hyn yn ategu ac i'w hadlewyrchu o fewn gofynion y safonau perthnasol.

## Summary map

Mae'r map crynodeb canlynol yn nodi'r swyddogaethau a phrif feysydd gweithgaredd a gyflawnir wrth gyflawni'r prif ddiben hwn.


Cynigir y meysydd swyddogaethol fel yr ystod lawn o'r rhai a gyflawnir gan weithwyr ieuenctid. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd unrhyw weithiwr ieuenctid unigol yn cyflawni'r holl weithgareddau; yn hytrach mae'r Map yn mynegi'r ystod lawn o weithgareddau y gellir eu cyflawni er mwyn cyflawni gwaith ieuenctid.

Nid yw'r meysydd a awgrymwyd o'r un maint/cymhlethdod, gan eu bod yn adlewyrchu gweithgareddau a rolau a gyflawnir gan unigolion o amrywiol lefelau profiad, cyfrifoldeb a hynafedd. Cydnabyddir hefyd bod nifer o'r swyddogaethau/gweithgareddau yn gysylltiedig â'i gilydd, felly bydd deilliannau un yn effeithio ar un arall.

Mae arfer gorau, fel a amlinellir yn yr NOS, yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr ieuenctid fod yn ymwybodol o'r cyd-destun lleol, cymdeithasol a gwleidyddol y cyflawnir gweithgareddau gwaith ieuenctid ynddynt.

Yn ogystal, bydd yn ofynnol i weithwyr ieuenctid ddangos ymrwymiad i'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n ategu a chefnogi'r holl weithgareddau ar draws gwaith ieuenctid.

## SUMMARY FUNCTIONAL MAP FOR YOUTH WORK



Mae’r diagram hwn yn nodi’r pum maes swyddogaethol lefel gyntaf (fel yr amlinellir yn y prif gylch) yr ymgymerir â hwy i gyflawni’r prif bwrpas. Y swyddogaethau ail lefel a nodir yn y blychau amgylchynol yw’r rhai a ymgymerir i gyflawni’r swyddogaeth lefel gyntaf. Ar y tudalennau canlynol, darperir mapio i nodi’n glir pa NOS sy’n berthnasol i’r swyddogaethau ail lefel a ddynodwyd.

## Glossary

Gall **Cymuned** gynnwys: cymunedau budd a chymunedau ymarfer lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang

Golyga **Cydraddoldeb** trin pob unigolyn yn gyfartal er gwaethaf gwahaniaethau unigol; yn y gyfres hon fe'i defnyddir yn bennaf i ddisgrifio deddfwriaeth neu ofynion a allai fod angen eu bodloni, neu wrth gyfeirio at sicrhau fod cyfleoedd ar gael yn gyfartal i bawb.

Golyga **tegwch** drin pob unigolyn yn ôl eu gwahaniaethau unigol a'u darparu yn unol â'u gofyniad; yn y gyfres hon fe'i defnyddir yn bennaf i ddisgrifio ymagwedd deg a chyfartal gan ymarferwyr wrth weithio gydag eraill.

Gall **eraill** gynnwys: cydweithwyr, asiantaethau eraill, partneriaid allanol a rhanddeiliaid allweddol; yn ogystal â chymunedau budd neu ymarfer lleol, cenedlaethol neu fyd-eang.

Gall **gweithwyr eraill** olygu'r rhai sydd o fewn a thu allan i'r sefydliad, yn cynnwys rhai sydd heb rôl a chyfrifoldebau gwaith ieuenctid penodol.

Defnyddiwyd **diogelu** i olygu cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y risg o niwed i les plant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn cael eu lleihau a lle ceir pryderon am les, fod pob asiantaeth yn gweithredu'n briodol i fynd i'r afael â'r pryderon hynny, gan weithio i bolisïau a gweithdrefnau a gytunwyd mewn partneriaeth lawn ag asiantaethau lleol eraill. Fe'i defnyddir yn wahanol yng ngwledydd cyfansoddol y Deyrnas Unedig.

Mae **lles** yn cynnwys iechyd personol, cymdeithasol, meddyliol a chorfforol pobl ifanc

## Links to other NOS

Nodir nifer o gyfresi NOS presennol i sicrhau bod y rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn gallu nodi a chyrchu NOS eraill a allai fod yn berthnasol i'w rôl.

Rhoddir yr NOS a gyfeiriwyd isod gyda chrynodeb o'r cynnwys.

**Gweithio gyda Rhieni**
Mae hon yn gyfres allweddol, sy'n addas ar gyfer rolau gyda chysylltiad â neu elfennau o weithio gyda rhieni.

**Dysgu Teuluol**
Mae hyn yn gyfres allweddol, sy'n addas ar gyfer rolau gyda chysylltiad â neu elfennau o weithio gyda rhieni a chefnogi teuluoedd i ddatblygu.

**Rheoli Gwirfoddolwyr**
Addas ar gyfer rolau gyda chyfrifoldeb am reoli, gweithio gyda neu gefnogi staff gwirfoddol, p'un ai â thâl neu'n ddi-dâl.

Mae'n bwysig nodi bod yna wahaniaeth sylfaenol rhwng rheoli a chefnogi gwirfoddolwyr o gymharu â rheoli a chefnogi staff taledig – gyda'r ail wedi ei gynnwys yn yr NOS Rheoli ac Arweinyddiaeth.

**NOS Rheoli ac Arweinyddiaeth**
Addas ar gyfer rolau gyda chyfrifoldeb am arwain neu reoli staff, datblygu neu reoli strategaeth, cynllunio a gwerthuso. Mae'r gyfres hon yn cynnwys NOS ar gyfer caffael a rheoli cyllid a chyllidebau.

**Dysgu a Datblygiad**
Addas ar gyfer rolau sy'n ceisio cefnogi datblygiad pobl ifanc trwy waith unigol neu grŵp

**Cynnwys y Dysgwr**
Addas ar gyfer rolau sydd ag elfen o gynrychioli, cefnogi, ac eirioli ar ran dysgwyr.

**Rhaglenni Awyr Agored ac Arweinyddiaeth Gweithgaredd**
Addas ar gyfer rolau sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac sy'n ymwneud â'r awyr agored, chwaraeon ac arweinyddiaeth gweithgareddau hamdden.

**Codi arian**
Yn addas ar gyfer rolau gyda chyfrifoldeb am gasglu cyfraniadau gwirfoddol, p'un ai gan unigolion, busnesau neu sefydliadau dyfarnu grantiau.

**Gweinyddu Busnes**
Addas ar gyfer rolau sy'n cynnwys swyddogaethau gweinyddol. Mae'r gyfres yn cynnwys rhai agweddau o gynllunio a rheoli prosiect.

**Rheoli Prosiect**
Addas i'r rhai sy'n cynllunio, rheoli a chyflawni prosiectau mewn gwaith ieuenctid

**Iechyd a Diogelwch**
Addas ar gyfer pob rôl gyda chyfrifoldebau iechyd a diogelwch, ac i'r rhai sy'n gyfrifol am, yn asesu ac yn rheoli iechyd a diogelwch.

## External Links

Mae yna nifer o ffactorau eraill a fydd yn dylanwadu ar sut y cymhwysir yr NOS Gwaith Ieuenctid. Bydd polisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, yn ogystal â fframweithiau cymhwyster a chodau ymarfer perthnasol, yn gymwys i'r rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

Dylid nodi bod yr ymagwedd tuag at waith ieuenctid yn amrywio ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig. Mae'r NOS wedi eu hysgrifennu i ganiatáu ar gyfer y gwahaniaethau ac i alluogi cymhwyso gwahanol derminoleg fel fo'n briodol. Fodd bynnag, waeth beth yw'r cyd-destun cenedlaethol, yn ganolog i'r holl ymarfer gwaith ieuenctid mae Gwerthoedd Gwaith Ieuenctid, a ddatblygwyd gyda'r sector yn 2007. Mae'r Gwerthoedd yn disgrifio ymagwedd i waith ieuenctid a disgwylir y bydd pawb sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn gweithio o fewn y gwerthoedd.

## Functional Map to NOS links:

Mae hyn yn cynnwys NOS craidd a gyfeiriwyd – yr NOS hynny sydd eu hangen i sicrhau bod yr holl swyddogaethau Gwaith Ieuenctid wedi eu bodloni, megis i reoli gwirfoddolwyr a swyddogaethau rheoli ac arweinyddiaeth - ar lefel NOS unigol.

Dangosir cyfeiriadau at NOS eraill sy'n 'ychwanegu gwerth' i ymarfer gwaith ieuenctid yn yr adran 'dolenni i NOS eraill'.

| Maes Swyddogaethol | Cyfeirnod / Teitl Swyddogaeth | Cyf NOS | Teitl NOS perthnasol |
|---|---|---|---|
| A: Gweithio gyda phobl ifanc ac eraill | A1 Meithrin perthynas ac ymgysylltu â phobl ifanc | YW 01 | Cychwyn, meithrin a chynnal perthynas bwrpasol gyda phobl ifanc |
| | | YW 02 | Cynorthwyo pobl ifanc i fynegi a chyflawni eu golau |
| | A2 Ymgysylltu â'r gymuned leol | YW 03 | Ymgysylltu gyda chymunedau i hyrwyddo buddiannau a chyfraniadau pobl ifanc |
| | A3 Meithrin perthynas a rhwydweithiau gwaith | YW04 | Datblygu perthynas waith adeiladol gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid i gefnogi gwaith ieuenctid |
| | | *Signpost No. 32* | *Lead and motivate volunteers (SFT MV D2)* www.ukstandards.org.uk |

| Maes Swyddogaethol | Cyfeirnod / Teitl Swyddogaeth | Cyf NOS | Teitl NOS perthnasol |
|---|---|---|---|
| B Hwyluso datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol pobl ifanc | B1 Hwyluso dysgu a datblygiad pobl ifanc trwy waith ieuenctid a deialog feirniadol | YW 05 | Galluogi pobl ifanc i ddefnyddio eu dysgu i wella eu datblygiad yn y dyfodol |
| | | YW 06 | Galluogi pobl ifanc i weithio mewn grwpiau |
| | | YW 07 | Annog pobl ifanc i ehangu eu gorwelion ac i fod yn ddinasyddion effeithiol |
| | | YW 08 | Cefnogi pobl ifanc i nodi a chyflawni'r nodau |
| | | YW 09 | Cefnogi pobl ifanc yn eu dealltwriaeth o risg a her |
| | | YW 10 | Hwyluso grymusiad pobl ifanc trwy eu hymglymiad gweithredol mewn gwaith ieuenctid |
| | B2 Cynllunio a gweithredu gweithgareddau dysgu mewn gwaith ieuenctid | YW 11 | Cynllunio, paratoi a hwyluso gweithgareddau gyda phobl ifanc |
| | | YW 12 | Gweithio gyda phobl ifanc i reoli adnoddau ar gyfer gweithgareddau gwaith ieuenctid |
| | | YW 13 | Cefnogi pobl ifanc i werthuso effaith gweithgareddau gwaith ieuenctid |
| | B3 Hyrwyddo hunan ymwybyddiaeth, hyder a chyfranogiad pobl ifanc | YW 14 | Hwyluso archwiliad pobl ifanc o'u gwerthoedd a'u credoau |
| | | YW 15 | Eirioli ar ran pobl ifanc a'u galluogi i gynrychioli eu hunain i eraill |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | B4 Hyrwyddo mynediad at wybodaeth a chefnogaeth | YW16 | Galluogi pobl ifanc i gyrchu gwybodaeth i wneud penderfyniadau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Maes Allweddol C<br><br>Hyrwyddo cynhwysiant, tegwch a buddiannau a lles phobl ifanc | C1 Gweithio gyda phobl ifanc i hyrwyddo eu hawliau | YW17 | Gweithio gyda phobl ifanc i hyrwyddo eu hawliau |
| | C2 Diogelu iechyd a lles pobl ifanc | YW18 | Archwilio eu lles gyda phobl ifanc |
| | | *YW19* | Gweithio gyda phobl ifanc i ddiogelu eu lles eu hunain |
| | | *YW20* | Gwreiddio polisi sefydliadol i ddiogelu a gwarchod pobl ifanc |
| | C3 Hyrwyddo cynhwysiant, tegwch a gwerthfawrogi amrywiaeth | *Signpost Mo. 33* | *Promote equality of opportunity and diverstiy and inclusion in your area of responsibility (Management and Leadership NOS B11)* www.ukstandards.org.uk |
| | | YW 21 | Datblygu diwylliant a systemau sy'n hyrwyddo cynhwysiant ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth |
| | C4 Cyflawni gofynion rheoleiddiol a sefydliadol | YW 22 | Sicrhau bod gweithgareddau gwaith ieuenctid yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Maes Allweddol D<br><br>Datblygu strategaeth ac ymarfer gwaith ieuenctid | D1 Sefydlu a blaenoriaethu gofynion ar gyfer gwaith ieuenctid | YW 23 | Ymchwilio anghenion pobl ifanc a'r gymuned parthed gwaith ieuenctid |
| | | YW 24 | Gwerthuso a blaenoriaethu gofynion sefydliadol ar gyfer gweithgareddau gwaith ieuenctid |
| | D2 Cynllunio a gweithredu strategaeth gwaith ieuenctid | YW 25 | Dylanwadu ar a datblygu strategaethau gwaith ieuenctid |
| | | *YW 26* | Nodi a sicrhau cyllid ac adnoddau ar gyfer gwaith ieuenctid |
| | | YW 27 | Hwyluso ac ymgysylltu â phobl ifanc yn natblygiad strategol a chyflawniad gwaith ieuenctid |
| | | *YW 28* | Gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau i wella cyfleoedd i bobl ifanc |
| | | *Signpost No. 34* | *Develop structures, systems and procedures to support volunteering (Managing Volunteers NOS A3)* www.ukstandards.org.uk |
| | D3 Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd strategaeth a chynlluniau gwaith ieuenctid | YW 29 | Monitro a gwerthuso ansawdd gweithgareddau gwaith ieuenctid |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Maes Allweddol E<br><br>Datblygu, arwain a rheoli eich hun ac eraill | E1 Rheoli eich hun | YW 30 | Gweithio fel ymarferydd gwaith ieuenctid effeithiol a myfyriol |
| | | *Signpost No. 35* | *Manage your own resources and professional development (Management and leadership NOS A2)* www.ukstandards.org.uk |
| | E2 Arwain a rheoli eraill | *Signpost No.36* | *Provide leadership for your team (Management and leadership NOS B5)* www.ukstandards.org.uk |
| | | *Signpost No.37* | *Allocate and check work in your team (Management and leadership NOS D5)* www.ukstandards.org.uk |
| | | *Signpost No.38* | *Recruit, select and keep colleagues (Management and leadership NOS D3)* www.ukstandards.org.uk |
| | E3 Datblygu cydweithwyr | YW 31 | Darparu cefnogaeth gwaith ieuenctid i weithwyr eraill |
| | | *Signpost No.39* | *Provide learning opportunities for colleagues (Management and leadership NOS D7)* www.ukstandards.org.uk |
| | E4 Cynnal iechyd a diogelwch yn y gweithle | *Signpost No.40* | *Make sure your own actions reduce risks to health and safety (Health and Safety NOS HSS1)* www.ukstandards.org.uk |
| | | *Signpost No.41* | *Ensure health and safety requirements are met in your area of responsibility (Management and leadership NOS E6)* www.ukstandards.org.uk |

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Learning and Skills Improvement Service |
| **Rhif fersiwn** | V3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | Ebrill 2012 |
| **Dyddiad adolygiad dangosol** | Ebrill 2015 |
| **Dilysrwydd** | Cyfredol |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad gwreiddiol** | Dysgu Gydol Oes yn y DU |
| **URN gwreiddiol** | YW00 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Ieuenctid (SOC 3231) |
| **Cyfres** | Gwaith Ieuenctid |
| **Geiriau allweddol** | Pobl ifanc; ieuenctid; grwpiau; unigolion; rhanddeiliaid; partneriaid; cymunedau; asiantaethau; cydraddoldeb; diogelu; lles; myfyrio; datblygiad proffesiynol parhaus; cynlluniau; prosiectau; gweithgareddau; nodau; amcanion; cyfranogiad; gwerthoedd; egwyddorion; |

# LSIYW01
Cychwyn, adeiladu a chynnal perthynas bwrpasol gyda phobl ifanc

## Overview

Mae perthynas bwrpasol gyda phobl ifanc yn ganolog i waith ieuenctid da. Mae’n bwysig gwybod sut i gychwyn perthynas o’r fath a hefyd y dulliau o’u cynnal er mwyn i ddysgu a datblygu ddigwydd.

Mae’r safon hon yn ymwneud â chychwyn, adeiladu a chynnal perthynas bersonol gyda phobl ifanc ac mae ar gyfer pob gweithiwr ieuenctid.

# LSIYW01
Cychwyn, adeiladu a chynnal perthynas bwrpasol gyda phobl ifanc

## Performance criteria

*You must be able to:*

P1. nodi a defnyddio lleoliadau ac amgylcheddau addas i sefydlu cyswllt gyda phobl ifanc
P2. cychwyn a chynnal sgyrsiau ar adeg ac mewn lle priodol
P3. cyfathrebu'n effeithiol gyda phobl ifanc
P4. darparu cefnogaeth ac anogaeth barhaus i bobl ifanc
P5. ymateb yn briodol i anghenion pobl ifanc, a'r materion a godwyd ganddynt
P6. hwyluso cynigion a chynlluniau pobl ifanc
P7. cynnal gofynion moesegol, cyfreithiol a chytundebol priodol mewn unrhyw ymwneud â phobl ifanc.
P8. bodloni gwerthoedd ac egwyddorion sy'n ategu gwaith ieuenctid ym mhob ymwneud â phobl ifanc

# LSIYW01
Cychwyn, adeiladu a chynnal perthynas bwrpasol gyda phobl ifanc

## Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

K1 codau cyfreithiol, sefydliadol ac ymarfer sy'n berthnasol i weithio gyda phobl ifanc, a'u heffaith ar gyfathrebu a delio gyda phobl ifanc
K2 lleoliadau yn y gymuned ble mae pobl ifanc yn cwrdd
K3 pwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth a chydberthynas gyda phobl ifanc, a dulliau o gyflawni hyn ar gyfer ystod o bobl ifanc
K4 gwahanol ddulliau a ffurfiau o gyfathrebu allai fod yn briodol i gyfathrebu gyda phobl ifanc, yn cynnwys dulliau electronig
K5 pwysigrwydd cyfathrebu nad yw'n llafar, megis iaith y corff, a sut mae eraill yn defnyddio a dehongli iaith y corff mewn gwahanol ffyrdd
K6 rhwystrau posibl i gyfathrebu, eu hachosion, a dulliau o'u trechu
K7 pwysigrwydd sicrhau dealltwriaeth ac osgoi tybiaethau
K8 problemau, pryderon a gweithgareddau cyffredin sy'n berthnasol i bobl ifanc
K9 risgiau posibl i ddiogelwch personol eich hun, a dulliau o ddelio â'r rhain
K10 gofynion parthed cyfrinachedd, a phwysigrwydd eu bodloni
K11 ffiniau cymhwysedd a chyfrifoldeb personol, pryd i gynnwys eraill a sut i gael cyngor a chefnogaeth
K12 gwerthoedd ac egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid

# LSIYW01
Cychwyn, adeiladu a chynnal perthynas bwrpasol gyda phobl ifanc

## Additional Information

### Values

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o'r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy'n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau'n gysylltiedig. Mae'r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i'r gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu'r safon hon. Mae'r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy'n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol.

### Behaviours

1. Defnyddiwch ddulliau ac arddulliau priodol o gyfathrebu sy'n addas i ofynion a galluoedd amrywiaeth o bobl ifanc
2. Defnyddiwch iaith a ddeellir gan, ac sydd â thermau cyfarwydd i bobl ifanc
3. Anogwch gwestiynau a gwirio am ddealltwriaeth
4. Mynd ati'n weithredol i ddeall, cadw ac ymateb yn adeiladol i unrhyw bryderon
5. Trin pobl ifanc â pharch
6. Rhyddhau amser i gefnogi eraill
7. Dangos cywirdeb, tegwch a chysondeb yn eich ymwneud â phobl ifanc
8. Arddangos ymddygiad sy'n dangos parch, cymwynasgarwch a chydweithrediad
9. Cymryd diddordeb positif ym mhryderon a meysydd gweithgaredd pobl ifanc
10. Ceisio deall anghenion ac ysgogiad pobl ifanc
11. Ymateb yn frwdfrydig ac adeiladol i syniadau pobl ifanc

# LSIYW02
Cynorthwyo pobl ifanc i fynegi a chyflawni eu nodau

## Overview

Pwysigrwydd deall sut mae pobl ifanc yn teimlo yn ogystal â beth maent yn ei wybod ac yn gallu ei wneud, yw un o'r gwerthoedd ac egwyddorion y mae disgwyl i weithwyr ieuenctid wybod amdano a'i roi ar waith yn eu hymarfer.

Mae'r safon hon yn ymwneud â galluogi pobl ifanc i fynegi eu gobeithion, pryderon a nodau datblygu. Mae'n cynnwys eu cynorthwyo i flaenoriaethu eu nodau i gytuno a chydnabod y gefnogaeth a allai fod ei hangen.

Mae'r safon ar gyfer pob gweithiwr ieuenctid.

# LSIYW02
## Cynorthwyo pobl ifanc i fynegi a chyflawni eu nodau

### Performance criteria

*You must be able to:*

P1 annog pobl ifanc i fynegi eu barn, dyheadau, anghenion a phryderon
P2 cytuno a blaenoriaethu gyda phobl ifanc eu nodau, ac opsiynau tuag at gyflawni'r nodau hyn
P3 archwilio a nodi gyda phobl ifanc y ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni eu hanghenion a'u dyheadau.
P4 nodi ac archwilio gyda phobl ifanc unrhyw gyfyngiadau i ddatblygu'r opsiynau a gytunwyd
P5 nodi unrhyw anghenion unigol neu grŵp allai fod angen sylw er mwyn cyflawni nodau a gytunwyd, yn cynnwys unrhyw ofynion emosiynol a sgiliau
P6 nodi ac asesu cyfleoedd dysgu i bobl ifanc o'u gweithgareddau parhaus, a pha rai allai gynorthwyo i fynd i'r afael â'u hanghenion
P7 cytuno gyda phobl ifanc ar y math a faint o gefnogaeth sydd angen er mwyn cyflawni eu nodau
P8 cynorthwyo i gyflawni'r gefnogaeth a gytunwyd, yn unol â lefel bersonol o awdurdod a gofynion sefydliadol
P9 monitro pobl ifanc i sicrhau eu diogelwch corfforol a lles meddyliol ac ymateb yn briodol i newidiadau mewn ymddygiad
P10 ymddwyn yn unol â gofynion cyfreithiol, moesol a chytundebol gwaith ieuenctid

# LSIYW02
## Cynorthwyo pobl ifanc i fynegi a chyflawni eu nodau

### Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

| | |
|---|---|
| K1 | dulliau ar gyfer sefydlu perthynas gyda phobl ifanc |
| K2 | pam ei bod yn bwysig greu cysylltiad gyda phobl ifanc ar eu telerau eu hunain |
| K3 | materion a dyheadau nodweddiadol a fynegir gan bobl ifanc |
| K4 | ffynonellau cymorth sy’n berthnasol i ddelio â materion ac anghenion pobl ifanc |
| K5 | pam ei bod yn bwysig galluogi pobl ifanc i nodi a gosod eu nodau eu hunain, ac i ddatblygu eu datrysiadau eu hunain, a dulliau i hwyluso’r broses hon |
| K6 | pwysigrwydd defnyddio gweithgareddau presennol pobl ifanc fel man cychwyn i ddatblygu cyfleoedd dysgu |
| K7 | cyfleoedd dysgu anffurfiol, ffurfiol, dysgu o brofiad, cyfathrebu, deialog beirniadol a chyfleoedd dysgu eraill, ac adnoddau cysylltiedig sydd ar gael |
| K8 | sut i ysgogi pobl ifanc |
| K9 | deinameg cyffredinol grwpiau |
| K10 | dulliau a thechnegau cyfathrebu effeithiol i ddatblygu deialog gyda phobl ifanc |
| K11 | canllawiau eich sefydliad yn ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd a diogelwch, a chyfrinachedd |
| K12 | materion risg a diogelwch personol, a sut i fynd i’r afael â’r rhain |
| K13 | ffiniau a chyfyngiadau eich rôl, cyfrifoldeb a chymhwyster personol i fynd i’r afael â materion ymddygiad |
| K14 | rôl a lefelau cyfrifoldeb personnol a phwy i fynd atynt mewn sefyllfaoedd pan eir y tu hwnt i’r rhain |
| K15 | gwerthoedd ac egwyddorion sy’n sylfaen i waith ieuenctid |

# LSIYW02
Cynorthwyo pobl ifanc i fynegi a chyflawni eu nodau

## Additional Information

### Values

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o'r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy'n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau'n gysylltiedig. Mae'r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i'r gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu'r safon hon. Mae'r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy'n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol.

### Behaviours

1. Trin pobl ifanc â pharch
2. Cydnabod mewnwelediad a chyfraniad pobl ifanc
3. Defnyddio dulliau ac arddulliau priodol o gyfathrebu sy'n addas i ofynion a galluoedd pobl ifanc
4. Cyfathrebu pan fydd yr amser a'r lleoliad yn briodol
5. Mynd ati'n weithredol i ddeall, cadw ac ymateb yn adeiladol i unrhyw bryderon
6. Annog cwestiynau, ac ateb y rhain yn llawn a gonest
7. Cynnwys pobl ifanc mewn gwneud penderfyniadau
8. Arddangos pryder o ran sut mae pobl ifanc yn teimlo

# LSIYW03
Ymgysylltu gyda chymunedau i hyrwyddo buddiannau a chyfraniadau pobl ifanc

## Overview

Mae gwerth bod yn ymatebol i'r rhwydweithiau a chymunedau ehangach sy'n bwysig i bobl ifanc yn sail i holl ymarfer gwaith ieuenctid ac yn un o'r egwyddorion a gwerthoedd y mae disgwyl i weithwyr ieuenctid wybod amdano a'r roi ar waith yn eu hymarfer. Mae'r safon yn berthnasol i bob ymarferydd gwaith ieuenctid.

Mae'r safon hon yn ymwneud ag ymgysylltu â chymunedau i hyrwyddo gwerth gwaith ieuenctid, annog cymunedau i ddod yn ffynhonnell gweithgarwch gwaith ieuenctid a hyrwyddo buddiannau a chyfraniadau pobl ifanc mewn cymunedau gwahanol.

Yng nghyd-destun y safon hon, mae 'cymuned' yn cynnwys: cymunedau budd a chymunedau ymarfer lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a byd eang.

# LSIYW03
## Ymgysylltu gyda chymunedau i hyrwyddo buddiannau a chyfraniadau pobl ifanc

### Performance criteria

*You must be able to:*

P1. nodi, datblygu a chynnal rhwydwaith o gysylltiadau ac asiantaethau allweddol yn y gymuned leol ac ehangach all gynorthwyo i hyrwyddo gweithgareddau gwaith ieuenctid sefydliadol
P2. casglu gwybodaeth a thystiolaeth bresennol parthed cymunedau lleol ac ehangach sy'n berthnasol i nodi eu hanghenion a materion parthed darpariaeth gwaith ieuenctid
P3. hyrwyddo egwyddorion a gwerthoedd gwaith ieuenctid i sefydliadau allweddol a rhanddeiliaid yn y gymuned
P4. cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau pobl ifanc, ac o'r cyfraniadau mae pobl ifanc yn eu gwneud i gymunedau
P5. creu cyfleoedd i bobl ifanc gael eu cynnwys yn bositif gyda chymunedau
P6. nodi cyfleoedd i hyrwyddo delweddau positif o bobl ifanc yn y gymuned ac i leihau unrhyw ystrydebu negyddol
P7. nodi a pharchu nodau ac amcanion eraill yn y gymuned a helpu pobl ifanc i wneud hynny, cydnabod pan fydd blaenoriaethau yn wahanol
P8. hwyluso dealltwriaeth o'r wybodaeth, sgiliau a phrofiad sydd ar gael yn ymwneud â gwaith ieuenctid a'r gwasanaethau a ddarperir gan eich sefydliad eich hun i gymunedau ac eraill
P9. galluogi pobl ifanc i ddysgu o'u profiadau o weithio gyda gwahanol gymunedau
P10. gweithio'n rhagweithiol i gynnwys y cymunedau sydd wedi eu hallgau fwyaf ac y'u hymyleiddiwyd gan gydnabod eu hawl i ddewis peidio ymgysylltu
P11. cefnogi rhwydweithiau, partneriaethau a chymunedau i gydweithio i ddatrys materion sy'n gysylltiedig ag ideoleg, gwrthdaro, cystadlu ac ariannu

# LSIYW03
## Ymgysylltu gyda chymunedau i hyrwyddo buddiannau a chyfraniadau pobl ifanc

### Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

| | |
|---|---|
| K1 | egwyddorion cyfathrebu effeithiol a sut i’w defnyddio wrth ymgysylltu â’r gymuned leol ac ehangach |
| K2 | manteision rhwydweithioi unigolion a sefydliadau |
| K3 | natur a hyd a lled darpariaeth gwaith ieuenctid presennol yn y gymuned leol |
| K4 | hawl pobl ifanc i gael eu syniadau a’u barn wedi eu parchu yn y cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt |
| K5 | yr ystod o ddulliau i ddatblygu perthnasau effeithiol gydag eraill sy’n ymwneud â phobl ifanc a, lle bo angen, sut i derfynu perthynas nad sy’n effeithiol mwyach |
| K6 | y mathau o wybodaeth y gellir fod eu hangen neu y gellir eu darparu gan bobl ifanc, asiantaethau perthnasol a rhanddeiliaid eraill priodol i sefydlu anghenion cymunedol o waith ieuenctid ac i’r gwrthwyneb. |
| K7 | sut y gall materion a gweithgareddau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a byd eang effeithio ar ei gilydd, yn cynnwys sut mae gweithgareddau lleol yn berthnasol i’r cyd-destun ehangach, ac i’r gwrthwyneb |
| K8 | y sgiliau, gwybodaeth, gwasanaethau a chefnogaeth i bobl ifanc a gynigir gan eich sefydliad eich hun a sut y gall gyfrannu i gymunedau |
| K9 | sut i asesu buddiannau'r rhai sy’n darparu adborth, a’r goblygiadau ar gyfer nodi a gwerthuso’r cyfleoedd ar gyfer gwaith ieuenctid |
| K10 | pam fod gan gymunedau anghenion gwahanol sydd angen gwahanol dulliau ar gyfer ymgysylltu a gweithgaredd |
| K11 | pam y gallai cymunedau gael eu heithrio neu ymyleiddio |
| K12 | pam fod gan gymunedau hawl i beidio ymgysylltu a sut i gydnabod hyn |
| K13 | dulliau o gefnogi rhwydweithiau, partneriaethau a chymunedau i gydweithio i ddatrys gwahaniaethau ynglŷn ag ideoleg, datrys gwrthdaro, cystadlu neu ariannu |
| K14 | gwerthoedd ac egwyddorion sy’n sail i waith ieuenctid |

# LSIYW03
Ymgysylltu gyda chymunedau i hyrwyddo buddiannau a chyfraniadau pobl ifanc

## Additional Information

### Values

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o’r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy’n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau’n gysylltiedig. Mae’r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i’r gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu’r safon hon. Mae’r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy’n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol.

### Behaviours

1. Gweithio i ddatblygu awyrgylch o broffesiynoldeb a chefnogaeth o’r ddeutu
2. Rhyddhau amser i gefnogi eraill
3. Cadw at eich gair ac yn anrhydeddu ymrwymiadau.
4. Datgan eich safbwynt a’ch barn yn glir a hyderus, hyd yn oed pan allai’r rhain wrthdaro gyda rhai pobl eraill
5. Ystyried effaith eich gweithredoedd ar eraill

### Glossary

Mae **Cymuned** yn cynnwys: cymunedau budd a chymunedau ymarfer lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a byd eang

**LSIYW04**

# Datblygu perthynas waith gynhyrchiol gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid i gefnogi gwaith ieuenctid

## Overview

Mae’r safon hon yn ymwneud â datblygu perthynas waith gynhyrchiol gydag eraill sydd â diddordeb mewn, neu sy’n ymgysylltu â gweithgareddau sefydliadol yn ymwneud â gwaith ieuenctid. Fe’i hargymhellir ar gyfer rheolwyr gwaith ieuenctid ac uwch reolwyr.

Mae’n cynnwys bod yn ymwybodol o rolau, cyfrifoldebau, buddiannau a phryderon cydweithwyr a rhanddeiliaid a gweithio gyda hwy a’u cefnogi mewn amrywiol ffyrdd. Mae’r angen i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd perthynas waith â chydweithwyr a rhanddeiliaid yn rhan allweddol o’r safon hon.

Yng nghyd-destun y safon hon, gall ‘eraill’ gynnwys cydweithwyr, asiantaethau eraill, partneriaid allanol a rhanddeiliaid allweddol yn ogystal â chymunedau buddiant neu ymarfer lleol, cenedlaethol neu fyd-eang.

# LSIYW04
## Datblygu perthynas waith gynhyrchiol gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid i gefnogi gwaith ieuenctid

### Performance criteria

*You must be able to:*

P1 nodi partneriaid a rhanddeiliaid a natur eu diddordeb a pherthynas â'r gweithgareddau a pherfformiad eu sefydliad eu hunain

P2 sefydlu perthynas weithredol gyda chydweithwyr, partneriaid a rhanddeiliaid

P3 cydnabod a pharchu rolau a chyfrifoldebau, diddordebau a phryderon eraill

P4 darparu eraill â gwybodaeth briodol yn unol â gofynion cyfreithiol a sefydliadol, i'w galluogi i berfformio'n effeithiol

P5 ymgynghori ag eraill parthed penderfyniadau allweddol a gweithgareddau gwaith ieuenctid ac ystyried eu safbwyntiau, gan gynnwys eu blaenoriaethau, disgwyliadau ac agweddau tuag at risgiau posibl

P6 monitro a chyflawni cytundebau a wnaed gydag eraill a chynghori eraill yn brydlon o unrhyw anawsterau neu os nad yw'n bosibl i gyflawni cytundebau

P7 nodi a gweithredu ar unrhyw wrthdaro buddiannau ac anghytundeb mewn ffyrdd sy'n lleihau difrod i weithgareddau ac i'r bobl ifanc, unigolion a'r sefydliadau dan sylw

P8 monitro ac adolygu effeithiolrwydd perthynas waith gydag eraill, gan geisio darparu adborth, er mwyn nodi meysydd i'w gwella

P9 gweithio yn unol ag a hyrwyddo gwerthoedd ac egwyddorion sy'n ategu gwaith ieuenctid wrth weithio gydag eraill

**LSIYW04**

# Datblygu perthynas waith gynhyrchiol gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid i gefnogi gwaith ieuenctid

## Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

K1 gwerth a mantais datblygu perthynas waith gynhyrchiol gydag eraill

K2 egwyddorion cyfathrebu effeithiol a sut i'w gweithredu

K3 pam ei bod yn bwysig cydnabod a pharchu rolau, cyfrifoldebau, a buddiannau cydweithwyr a rhanddeiliaid

K4 yr asiantaethau, partneriaid a rhanddeiliaid perthnasol a natur eu buddiannau ym mherfformiad neu weithgareddau eich sefydliad

K5 datblygiadau, materion a phryderon o bwys i randdeiliaid mewn gwaith ieuenctid a sut i addnabod y rhain

K6 pwysigrwydd ystyried barn pobl eraill, yn arbennig parthed eu blaenoriaethau, disgwyliadau ac agweddau tuag at risgiau posibl

K7 pwysigrwydd monitro datblygiadau ehangach parthed rhanddeiliaid a sut i wneud hynny'n effeithiol

K8 datblygiadau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, amgylcheddol a chyfreithiol presennol ac sy'n codi mewn gwaith ieuenctid

K9 mecanweithiau ac offer i gyfathrebu ac ymgynghori ag eraill

K10 sut i nodi a chytuno ar ba wybodaeth sy'n briodol a chyfreithiol i'w darparu i eraill, a gofynion sefydliadol ar gyfer rhannu gwybodaeth

K11 sut i nodi gwrthdaro buddiannau ac anghytundeb a thechnegau i'w rheoli neu eu diddymu

K12 pam mae cyfathrebu parthed cyflawni cytundebau neu unrhyw broblemau yn effeithio ar neu'n atal eu cyflawni yn bwysig

K13 mecanweithiau i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd perthynas waith gydag eraill

K14 sut i gaffael, rhannu a defnyddio adborth ar effeithiolrwydd perthynas waith

K15 gofynion cyfreithiol, sefydliadol, moesegol a chodau ymarfer eraill sy'n berthnasol i weithio gydag eraill a phobl ifanc

K16 gwerthoedd ac egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid

# LSIYW04
Datblygu perthynas waith gynhyrchiol gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid i gefnogi gwaith ieuenctid

## Additional Information

### Values

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o'r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy'n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau'n gysylltiedig. Mae'r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i'r gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu'r safon hon. Mae'r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy'n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol.

### Behaviours

1. Cyflwyno gwybodaeth yn glir, cryno, cywir ac mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo dealltwriaeth
2. Dangos parch tuag at farn a gweithredoedd pobl eraill
3. Ceisio deall anghenion a chymhelliannau pobl
4. Cydymffurfio â, a sicrhau bod eraill yn cydymffurfio â, gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, polisïau sefydliadol a chodau proffesiynol
5. Creu teimlad o bwrpas cyffredin
6. Gweithio tuag at ddatrysiadau ble mae pawb ar eu hennill
7. Dangos sensitifrwydd tuag at wleidyddiaeth fewnol ac allanol sy'n effeithio ar eich maes gwaith
8. Cadw at eich gair ac yn anrhydeddu ymrwymiadau
9. Ystyried effaith eich gweithredoedd ar eraill
10. Defnyddio dulliau cyfathrebu sy'n briodol i wahanol bobl a sefyllfaoedd
11. Gweithio i ddatblygu awyrgylch o broffesiynoldeb a chefnogaeth o'r ddeutu

### Glossary

Mae **'Eraill'** yn cynnwys: cydweithwyr, asiantaethau eraill, partneriaid allanol a rhanddeiliaid allweddol; yn ogystal â chymunedau buddiant neu ymarfer lleol, cenedlaethol neu fyd-eang.

**LSIYW05**
# Galluogi pobl ifanc i ddefnyddio eu dysgu i hybu eu datblygiad yn y dyfodol

NATIONAL OCCUPATIONAL STANDARDS

## Overview

Mae’r safon hon ar gyfer gweithwyr ieuenctid y mae eu gwaith yn cynnwys annog pobl ifanc i fyfyrio ar eu dysgu a chymhwyso ym mewn meysydd eraill yn eu bywydau, gan sefydlu nodau ar gyfer eu datblygiad yn y dyfodol.

Mae dysgu yn y safon hon yn cynnwys dysgu ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol yn ogystal â dysgu o brofiad, cyfathrebu a deialog feirniadol.

# LSIYW05
## Galluogi pobl ifanc i ddefnyddio eu dysgu i hybu eu datblygiad yn y dyfodol

### Performance criteria

*You must be able to:*

| | |
|---|---|
| P1 | archwilio gydag, a hyrwyddo'n glir i bobl ifanc fanteision dysgu parhaus |
| P2 | annog pobl ifanc i fyfyrio'n adeiladol ar eu profiadau ac i gydnabod y pwyntiau dysgu dilynol |
| P3 | creu cyfleoedd priodol i bobl ifanc fyfyrio ar eu dysgu a'u profiadau |
| P4 | darparu cefnogaeth weithredol a sensitif i alluogi pobl ifanc i ddelio gydag unrhyw brofiadau a dysgu sy'n eu herio |
| P5 | datblygu gallu pobl ifanc i gymryd yr awenau yn eu sesiynau adolygu eu hunain |
| P6 | annod pobl ifanc i werthfawrogi dysgu a phrofiadau ei gilydd |
| P7 | annog pobl ifanc i nodi sut y gellid cymhwyso eu dysgu o waith ieuenctid ym meysydd eraill bywyd |
| P8 | gweithio gyda phobl ifanc i nodi a datblygu nodau datblygu personol a grŵp clir a chyraeddadwy |
| P9 | cynorthwyo pobl ifanc i nodi gweithgareddau a fydd yn cyflawni eu nodau ac sy'n unol â'r modd maent yn dewis dysgu, gan gofnodi'r rhain fel y bo'n briodol |
| P10 | nodi ffynonellau cefnogaeth i helpu pobl ifanc i gyflawni ac adolygu eu dysgu a'u datblygiad |

## Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

| | |
|---|---|
| K1 | gweithgareddau a thechnegau i esbonio a hyrwyddo manteision dysgu parhaus, a ffynonellau cefnogaeth cysylltiedig ar gyfer pobl ifanc |
| K2 | pwysigrwydd annog pobl ifanc i fyfyrio ar eu profiadau eu hunain a llunio eu dysgu eu hunain ohonynt |
| K3 | technegau i greu amgylchedd ble mae'n ddiogel i gyfathrebu yn agored a gonest am brofiadau, dysgu a dyheadau |
| K4 | technegau i hwyluso a monitro dynameg grŵp, gan alluogi pobl ifanc i ganolbwyntio ar faterion sy'n bwysig iddynt hwy, yn cynnwys y rhai sy'n heriol iddynt |
| K5 | sgiliau hwyluso, yn cynnwys dealltwriaeth weithredol, sy'n briodol i rymuso pobl ifanc i gymryd perchnogaeth o'r broses ddysgu |
| K6 | sut i weithio gyda phobl ifanc i nodi nodau cyraeddadwy, a mecanweithiau i gofnodi datblygiad pobl ifanc |
| K7 | dulliau dysgu a theorïau eraill sy'n berthnasol i gynllunio datblygiad |
| K8 | pwysigrwydd rhoi a derbyn adborth yn effeithiol a dulliau o gyflawni hyn gyda phobl ifanc |
| K9 | gweithgareddau a thechnegau y gellir eu defnyddio i fonitro a myfyrio ar ddatblygiad |
| K10 | ffynonellau cefnogaeth ychwanegol ar gyfer pobl ifanc wrth iddynt weithredu eu cynlluniau datblygu a delio â materion sydd tu hwnt i'ch cylch gorchwyl chi |
| K11 | sut a phryd i ddefnyddio achrediad i hybu dysgu pobl ifanc |
| K12 | dulliau o achredu dysgu |
| K13 | gwerth dysgu anffurfiol, heb fod yn ffurfiol, ffurfiol, dysgu o brofiad, cyfathrebu a deialog feirniadol, a sut y gall y rhain hybu datblygiad pobl ifanc |
| K14 | gwerthoedd ac egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid |

# LSIYW05
Galluogi pobl ifanc i ddefnyddio eu dysgu i hybu eu datblygiad yn y dyfodol

## Additional Information

### Values

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o’r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy’n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau’n gysylltiedig. Mae’r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i’r gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu’r safon hon. Mae’r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy’n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol.

### Behaviours

1. Cydnabod y person ifanc fel partner yn y broses ddysgu
2. Gweithio i ddarparu amgylchedd dysgu a datblygu diogel ar gyfer pobl ifanc
3. Annog pobl ifanc i archwilio eu gallu ar gyfer twf a datblygiad
4. Annog pobl ifanc i fod yn feirniadol a chreadigol yn eu hymatebion i’r byd o’u cwmpas

# LSIYW06
Galluogi pobl ifanc i weithio mewn grwpiau

## Overview

Pwysigrwydd cyfiawnder, amrywiaeth a chynhwysiant yw un o'r gwerthoedd y mae disgwyl i weithwyr ieuenctid wybod amdanynt a'u rhoi ar waith wrth weithio gyda grwpiau o bobl ifanc.

Mae'r safon hon yn canolbwyntio ar reoli deinameg grŵp er mwyn hwyluso gwaith grŵp gyda phobl ifanc. Mae'n cynnwys gweithio gyda phobl ifanc i ddatblygu gweithgareddau grŵp sy'n bodloni anghenion a dewisiadau grŵp ac unigol.

Mae'r safon ar gyfer pob ymarferydd gwaith ieuenctid.

# LSIYW06
Galluogi pobl ifanc i weithio mewn grwpiau

## Performance criteria

*You must be able to:*

| | |
|---|---|
| P1 | esbonio eich rôl eich hun fel hwylusydd parthed y grŵp |
| P2 | trafod gyda phobl ifanc y ffiniau ymddygiad o fewn y grŵp, gan sicrhau eu bod yn deg a chynhwysol |
| P3 | sicrhau y caiff barn pob aelod grŵp eu hystyried, eu cydnabod a'u trin â pharch |
| P4 | annog pobl ifanc i barchu barn eraill a chydnabod effaith eu gweithredoedd ar eraill |
| P5 | annog a chefnogi pobl ifanc ac oedolion i sefydlu grwpiau i hwyluso gweithgareddau gwaith ieuenctid |
| P6 | hyrwyddo a chynnal perthynas bositif a gwerthfawrogi gwahaniaethau rhwng aelodau grŵp unigol a gyda grwpiau eraill |
| P7 | cynorthwyo pobl ifanc i gyfathrebu'n glir, gan ddeall eraill a goresgyn unrhyw rwystrau i gyfathrebu |
| P8 | cefnogi pobl ifanc i ddatblygu eu gallu i roi, derbyn a gwerthfawrogi unrhyw adborth adeiladol |
| P9 | defnyddio dulliau ac arddulliau hwyluso sy'n briodol i gam datblygiad y grŵp er mwyn datblygu gweithgareddau grŵp |
| P10 | sicrhau bod ymyriadau yn cydbwyso gweithio tuag at gyflawni deilliannau grŵp, bodloni anghenion unigol a delio â deinameg grŵp |
| P11 | monitro a gwerthuso effaith gwaith grŵp ar ddeilliannau arfaethedig unigol ac ar y cyd |
| P12 | nodi pan fydd ymddygiad tu allan i'r ffiniau a gytunwyd ar gyfer y grŵp o bobl ifanc |
| P13 | sicrhau bod y gwrthdaro a thensiynau rhwng aelodau unigol grŵp ac eraill yn cael eu cydnabod yn agored |
| P14 | nodi a gweithredu camau tuag at reoli ymddygiad annerbyniol, gwrthdaro a thensiynau, gan sicrhau bod y rhain yn unol â deddfwriaeth, polisi a gweithdrefnau |
| P15 | ceisio cefnogaeth pan fydd gweithredu sydd ei angen i gefnogi'r grŵp tu allan i ffiniau rôl a chyfrifoldeb personol |
| P16 | bodloni eich polisi, arfer a gofynion sefydliadol ar gyfer cofnodi ac adrodd ar sesiynau grŵp ar gyfer pobl ifanc, yn cynnwys unrhyw ddigwyddiadau sy'n codi |
| P17 | sicrhau bod unrhyw waith grŵp gyda phobl ifanc yn unol â gwerthoedd ac egwyddorion gwaith ieuenctid |

# LSIYW06
Galluogi pobl ifanc i weithio mewn grwpiau

## Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

| | |
|---|---|
| K1 | eich rôl eich hun fel hwylusydd deinameg a gweithgareddau grŵp |
| K2 | pwysigrwydd gwaith grŵp i ddatblygu sgiliau a hyder pobl ifanc |
| K3 | cysyniadau, theorïau a modelau cyfoes deinameg grŵp a'u dadansoddiad |
| K4 | ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ddeinameg grŵp |
| K5 | ffyrdd o hwyluso grwpiau sy'n annog grymuso ac yn ystyried cam datblygiad grŵp |
| K6 | pwysigrwydd cytuno ar ffiniau ymddygiad gyda'r grŵp a'i aelodau |
| K7 | sut i annog a chefnogi pobl ifanc ac oedolion i sefydlu grwpiau newydd i hwyluso gweithgareddau gwaith ieuenctid |
| K8 | sut i barchu a gwerthfawrogi'r gwahaniaethau rhwng aelodau grŵp |
| K9 | dulliau ac ymyriadau a ddefnyddir i ddatblygu gweithgareddau grŵp |
| K10 | pam ei bod yn bwysig gweithio gyda phobl eraill mewn dulliau sy'n goresgyn rhwystrau unigol a grŵp ac yn eu hannog i gyfathrebu gyda'i gilydd a pharchu ei gilydd |
| K11 | sut i adnabod ymddygiadau tu allan i'r ffiniau a gytunwyd, a'r gwahaniaeth rhwng ymddygiad gormesol a phendantrwydd |
| K12 | sut y gall oed a cham datblygiad pobl ifanc effeithio ar y ffordd yr edrychir ar ymddygiad |
| K13 | pwysigrwydd ystyried profiad blaenorol pobl ifanc a allai effeithio ar eu hymddygiad presennol |
| K14 | technegau ar gyfer arallgyfeirio ymddygiad gormesol |
| K15 | ffyrdd o ddarparu adborth adeiladol i grwpiau a'u haelodau |
| K16 | ffyrdd o fonitro a gwerthuso gwaith grŵp a llwyddiant grwpiau |
| K17 | pam ei bod yn bwysig i bobl ifanc ddysgu rheoli eu hymddygiad eu hunain a delio'n bositif ag unrhyw wrthdaro, yn unigol ac mewn grwpiau |
| K18 | gan bwy i geisio cefnogaeth pan fydd angen gweithredu tu allan i gyfyngiadau eich cyfrifoldeb eich hun |
| K19 | polisïau a gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer cofnodi ac adrodd ar sesiynau grŵp, yn cynnwys cofnodi digwyddiadau ac i bwy ddylid gwneud adroddiadau |
| K20 | pwysigrwydd galluogi a chefnogi gwaith grŵp yn unol â gwerthoedd ac egwyddorion gwaith ieuenctid |

# LSIYW06
## Galluogi pobl ifanc i weithio mewn grwpiau

### Values

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o'r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy'n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau'n gysylltiedig. Mae'r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i'r gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu'r safon hon. Mae'r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy'n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol

### Behaviours

1. Helpu pobl ifanc i ymlacio, cwrdd â ffrindiau, creu cysylltiadau newydd i gael hwyl a chanfod cefnogaeth
2. Ymwneud â sut mae pobl ifanc yn teimlo, nid dim ond beth maent yn ei wybod ac yn gallu ei wneud
3. Hyrwyddo derbyn a dangos dealltwriaeth o eraill
4. Deall, cadw ac ymateb yn weithredol, annog cwestiynau a gwirio am ddealltwriaeth
5. Cyfathrebu'n glir, yn gryno ac yn ddiamwys

# LSIYW07
Annog pobl ifanc i ehangu eu gorwelion ac i fod yn ddinasyddion effeithiol

## Overview

Mae pwysigrwydd cyfranogiad ac ymglymiad effeithiol pobl ifanc yn werthoedd y mae disgwyl i weithwyr ieuenctid eu gwybod a'u gweithredu yn eu hymarfer, ac sy'n sail i'r safon hon.

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr ieuenctid sy'n annog pobl ifanc i ddod yn ddinasyddion gwybodus a chysylltiedig, gan ehangu eu gorwelion a datblygu dealltwriaeth o'r gymuned ehangach a'u lle ynddi.

Mae'n cynnwys annog a chefnogi pobl ifanc i gymryd rhan yn eu cymunedau lleol ac ehangach a hyrwyddo dealltwriaeth o sut i fod yn effeithiol wrth gysylltu gyda, herio a gwneud cyfraniad positif i newid yn y cymunedau hyn.

Yng nghyd-destun y safon hon, gall cymunedau ehangach gynnwys grwpiau cymdeithasol, diwylliannol neu bersonol, yn ogystal â chymunedau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang allai fod yn amodol i broses ddemocrataidd neu wleidyddol.

# LSIYW07
## Annog pobl ifanc i ehangu eu gorwelion ac i fod yn ddinasyddion effeithiol

### Performance criteria

*You must be able to:*

P1 archwilio yn adeiladol gyda phobl ifanc y cysyniad o ddinasyddiaeth, yn cynnwys ei berthnasedd ar lefelau lleol, cenedlaethol, rhyngwladol a byd-eang.

P2 hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang ehangach, ac archwilio a nodi manteision ymwneud â'r rhain

P3 archwilio a nodi gyda phobl ifanc eu rolau a'u cyfrifoldebau fel dinesydd effeithiol

P4 archwilio a nodi nodau a dyheadau pobl ifanc parthed eu hymglymiad a'u hymgysylltiad â chymunedau ehangach, hyrwyddo dulliau o ymestyn eu hymglymiad, er enghraifft trwy waith gwirfoddol

P5 hyrwyddo trafodaeth ynglŷn â syniadau a llwybrau tuag at herio a newid prosesau gwneud penderfyniadau ar lefel leol a chenedlaethol, gan hyrwyddo eu hymglymiad, eu llais a'u dylanwad

P6 archwilio canfyddiadau pobl ifanc parthed rhwystrau a chyfyngiadau posibl i gyflawni eu potensial fel dinasyddion effeithiol, a nodi camau tuag at ddelio a'r rhain yn gyfrifol ac adeiladol

P7 cynnwys pobl ifanc mewn nodi a threfnu gweithgareddau a gynlluniwyd i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut y gallant ddatblygu eu hymgysylltiad fel dinasyddion effeithiol

P8 hwyluso gweithgareddau a gynlluniwyd i ddatblygu ymgysylltiad a chyfranogiad pobl ifanc fel dinasyddion effeithiol, i gymryd rhan yn, ac i gyfrannu'n bositif i'r gymuned ehangach

P9 archwilio gyda phobl ifanc y cyd-destun byd-eang i benderfyniadau a gweithredoedd personol, lleol a chenedlaethol

P10 myfyrio gyda phobl ifanc ar y pwyntiau dysgu yn deillio o weithgareddau perthnasol i'w rôl fel dinasyddion effeithiol datblygol, a defnyddio hyn i atgyfnerthu rôl pobl ifanc, a hefyd i hysbysu gweithredoedd yn y dyfodol

# LSIYW07
## Annog pobl ifanc i ehangu eu gorwelion ac i fod yn ddinasyddion effeithiol

### Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

| | |
|---|---|
| K1 | manteision annog a chefnogi pobl ifanc i ehangu eu gorwelion, ac i gysylltu a chynnwys eu hunain yn y gymuned ehangach, ac i fod yn ddinasyddion effeithiol |
| K2 | y grwpiau a chymunedau ehangach personol, cymdeithasol, diwylliannol, lleol, cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol |
| K3 | beth mae dinasyddiaeth effeithiol yn ei olygu, yn cynnwys ei chyswllt â theuluoedd, cymunedau lleol, llywodraeth leol a chenedlaethol, a materion rhyngwladol a byd-eang |
| K4 | sut yr eir i'r afael â dinasyddiaeth mewn ysgolion, a sut y gall gweithgareddau ieuenctid ategu hyn |
| K5 | y pwyntiau cychwyn i bobl ifanc wrth ystyried sut i ddatblygu eu gorwelion |
| K6 | ffynonellau cefnogaeth gan asiantaethau eraill er mwyn ehangu gorwelion pobl ifanc, a sut i gael mynediad at hyn |
| K7 | y broses ddemocrataidd a rôl llywodraeth leol a chanolog, yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau gwneud penderfyniad allweddol |
| K8 | natur a nodau y prif bartïon gwleidyddol |
| K9 | egwyddorion allweddol cyfraith droseddol a sifil, sy'n berthnasol i ddinasyddiaeth effeithiol ymysg pobl ifanc |
| K10 | cyfleoedd a gweithgareddau i hybu ymglymiad a chyfranogiad pobl ifanc mewn cymunedau ehangach, yn cynnwys cyfleoedd gwirfoddol, a sut i gael mynediad at, creu a gweithredu'r rhain |
| K11 | gweithgareddau y gellir eu defnyddio i hybu dealltwriaeth pobl ifanc o ddinasyddiaeth effeithiol a'u manteision ac anfanteision perthnasol |
| K12 | rhwystrau a chyfyngiadau mae pobl ifanc yn ystyried i fod yn llesteirio eu gallu i gyflawni eu potensial fel dinasyddion effeithiol, a chamau priodol er mwyn eu goresgyn |
| K13 | pwysigrwydd cynnwys pobl ifanc mewn archwilio'r cyfleoedd i hybu eu hymglymiad er mwyn iddynt gymryd perchnogaeth o'r broses a dulliau ar gyfer cyflawni hyn |
| K14 | gwerthoedd ac egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid |

# LSIYW07
## Annog pobl ifanc i ehangu eu gorwelion ac i fod yn ddinasyddion effeithiol

### Additional Information

**Values**

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o'r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy'n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau'n gysylltiedig. Mae'r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i'r gwaith a wenir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu'r safon hon. Mae'r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy'n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol.

**Behaviours**

1. Trin pobl ifanc â pharch
2. Parchu hawliau a chredoau eraill, a pheidio gorfodi eich gwerthoedd eich hun a rai sydd â barn wahanol
3. Annog cwestiynau a gwirio am ddealltwriaeth
4. Mynd ati'n weithredol i ddeall, cadw ac ymateb yn adeiladol i unrhyw bryderon
5. Gwerthfawrogi cyfle cyfartal ac amrywiaeth, herio gormes a gwahaniaethul

# LSIYW08
Cefnogi pobl ifanc i nodi a chyflawni nodau

## Overview

Mae’r safon hon ar gyfer gweithwyr ieuenctid sy’n gweithio ar y cyd â phobl ifanc, gan eu galluogi i nodi anghenion, gwneud cynlluniau a gweithredu tuag at gyflawni eu nodau.

Mae’n cynnwys cefnogi pobl ifanc i fyfyrio ar a dysgu o’u gweithredoedd eu hunain ac eraill, ac yn annog eu gwytnwch trwy nodi a mynd i’r afael â materion a phroblemau a wynebir yn ogystal â thrwy ddathlu cyflawniad a llwyddiant.

Pwysigrwydd cyfranogiad ac ymglymiad gweithredol pobl ifanc yw un o’r gwerthoedd y mae disgwyl i weithwyr ieuenctid wybod amdanynt a'u gweithredu wrth weithio gyda phobl ifanc i nodi anghenion a gwneud cynlluniau.

# LSIYW08
Cefnogi pobl ifanc i nodi a chyflawni nodau

## Performance criteria

*You must be able to:*

P1 gweithio gyda phobl ifanc i nodi a chytuno ar eu nodau personol ar gyfer cyflawniad
P2 nodi gyda phobl ifanc ystod o weithredoedd i gyflawni eu nodau, gan asesu eu hymarferoldeb yn wrthrychol gyda'r person ifanc
P3 cynorthwyo pobl ifanc i nodi manteision a risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredoedd posibl, ac i gydbwyso'r risgiau yn erbyn y manteision ar gyfer eu hunan ac eraill
P4 annog pobl ifanc i archwilio eu nodau a chamau posibl tuag at gyflawni'r rhain gyda phartïon perthnasol, yn cynnwys eu rhieni/gofalwyr
P5 adolygu gyda phobl ifanc unrhyw bryderon posibl neu gyfyngiadau a nodant i fod yn rhwystrau posibl tuag at gyflawni eu nodau
P6 cynorthwyo pobl ifanc i archwilio a mynd i'r afael â phroblemau yn wrthrychol ac adeiladol
P7 cytuno gyda phobl ifanc ar eu llwybr dewisol i gyflawni eu nodau a'u cynorthwyo i ddatblygu cynllun gweithredu tuag at gyflawni eu nodau
P8 sicrhau yr ystyrir anghenion, teimladau ac ymatebion pobl ifanc i weithredoedd a gytunwyd
P9 annog a chynorthwyo pobl ifanc i nodi cyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau i weithredu eu cynllun a gwireddu eu nodau
P10 sicrhau bod y gweithredoedd a gytunwyd ganddynt yn bodloni ystyriaethau cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol
P11 darparu gwybodaeth a chefnogaeth barhaus i bobl ifanc tuag at gyflawni eu nodau, yn unol â rôl a chyfrifoldebau a gytunwyd
P12 creu cyfleoedd i bobl ifanc fyfyrio ar a dysgu o'u profiadau, archwilio gyda hwy sut y gallant gymhwyso dysgu o'r fath i ddatblygu eu nodau
P13 annog y person ifanc i archwilio a datblygu dulliau i reoli ei ymddygiad e hun
P14 ceisio cefnogaeth briodol ble ceir anawsterau i fynd i'r afael ag ymddygiad y person ifanc ac wrth drafod nodau a ffiniau realistig gyda'r person ifanc
P15 cydnabod cyflawniadau pobl ifanc, a'u cefnogi a'u cynorthwyo i ddelio ag unrhyw rwystrau canfyddedig
P16 annog gwytnwch pobl ifanc trwy ddathlu cyflawniadau, yn cynnwys mynd i'r afael â phroblemau

# LSIYW08
Cefnogi pobl ifanc i nodi a chyflawni nodau

## Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

| | |
|---|---|
| K1 | gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol yn ymwneud â gwaith ieuenctid, a'u heffaith o fewn maes cyfrifoldeb personol |
| K2 | gwerthoedd ac egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid |
| K3 | pwysigrwydd pobl ifanc yn gosod ac yn berchen ar nodau ar gyfer eu cyflawni |
| K4 | ffactorau sy'n pennu nodau a ffiniau priodol ar gyfer pobl ifanc |
| K5 | ffactorau i'w hystyried wrth asesu ymarferoldeb nodau a chynlluniau gweithredu, a sut i gynnal asesiadau gwrthrychol |
| K6 | y partïon y dylai'r person ifanc ymgynghori â hwy ynglŷn â'u nodau a'u cynlluniau |
| K7 | pwysigrwydd gwerthuso'r opsiynau i'w hystyried a sut i gynnal dadansoddiad risg/budd cynlluniau gweithredu |
| K8 | ffynonellau gwybodaeth a chyngor sydd ar gael i bobl ifanc all gynorthwyo eu gwerthusiad o opsiynau |
| K9 | technegau datrys problemau effeithiol |
| K10 | ffynonellau dysgu a datblygu y gall pobl ifanc eu defnyddio i ddatblygu'r sgiliau sy'n briodol i weithredu eu cynlluniau |
| K11 | dulliau o fonitro a gwerthuso cynnydd cynlluniau gweithredu i gyflawni nodau pobl ifanc |
| K12 | pwysigrwydd myfyrio ar a dysgu o brofiadau a sut i greu cyfleoedd i bobl ifanc wneud hyn |
| K13 | pwysigrwydd creu amgylchedd ble mae pobl ifanc yn ystyried ei bod yn ddiogel siarad yn agored a gonest am eu nodau a'u profiadau, a sut i wneud hyn |
| K14 | pam ei bod yn bwysig i bobl ifanc ystyried eu hymddygiad a chydnabod yr effaith y gall hyn ei gael ar eu perthnasoedd |
| K15 | dulliau ar gyfer delio'n adeiladol ag anawsterau mae pobl ifanc yn wynebu |
| K16 | dulliau cefnogaeth sydd ar gael i unigolion a chi eich hunan a sut i gael mynediad atynt |
| K17 | pwysigrwydd cydnabod a dathlu cyflawniadau o ran ysgogi ac annog gwytnwch mewn pobl ifanc, a dulliau o wneud hyn yn effeithiol |
| K18 | gwerthoedd ac egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid |

# LSIYW08
Cefnogi pobl ifanc i nodi a chyflawni nodau

## Additional Information

### Values

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o'r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy'n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau'n gysylltiedig. Mae'r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i'r gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu'r safon hon. Mae'r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy'n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol.

### Behaviours

1. Trin pobl ifanc â pharch
2. Rhagweld senarios tebygol yn y dyfodol yn seiliedig ar ddadansoddiad realistig o'r amgylchiadau presennol
3. Cydnabod cyfraniad a mewnwelediad pobl ifanc
4. Ceisio deall anghenion a chymelliannau pobl ifanc
5. Defnyddio dulliau ac arddulliau cyfathrebu priodol sy'n addas i anghenion a galluoedd pobl ifanc

# LSIYW09
Cefnogi pobl ifanc yn eu dealltwriaeth o risg a her

## Overview

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac yn ymwneud â gweithgareddau yn ymwneud â risgiau a her. Mae ganddi ffocws ar ddarparu cyfleoedd heriol, a defnyddio'r rhain i hyrwyddo dealltwriaeth a gallu pobl ifanc i reoli'r risgiau cysylltiedig.

Mae'r safon yn cynnwys datblygu dealltwriaeth pobl ifanc a gwerthfawrogiad o risg, a'u gallu i reoli risg o fewn cyd-destun eu datblygiad personol a chymdeithasol. Gall darparu heriau a datblygu dealltwriaeth o risg hefyd gael y fantais o annog gwytnwch mewn pobl ifanc.

# LSIYW09
Cefnogi pobl ifanc yn eu dealltwriaeth o risg a her

## Performance criteria

*You must be able to:*

| | |
|---|---|
| P1 | nodi heriau priodol o ddiddordeb i bobl ifanc sydd ag elfennau o risg sydd angen eu rheoli |
| P2 | asesu a dethol heriau lle mae'r risgiau o fewn gallu'r bobl ifanc i'w reoli |
| P3 | cytuno ar natur yr her gyda'r bobl ifanc dan sylw, a diben yr asesiad risg |
| P4 | gweithio gyda phobl ifanc i hwyluso eu dynodiad a'u dealltwriaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â her |
| P5 | archwilio a chytuno gyda'r bobl ifanc ar gynllun, a gweithredu priodol, tuag at reoli'r risgiau a nodwyd |
| P6 | sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r heriau yn deall ac yn cytuno ar y risgiau a gweithredu sy'n briodol i reoli'r rhain |
| P7 | gwerthuso'r cynllun gweithredu a chadarnhau ei fod yn mynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynllun |
| P8 | adolygu unrhyw bryderon parthed y cynllun gyda'r bobl ifanc, ac arbenigwyr priodol fel bo angen, a chytuno sut i fynd i'r afael â'r rhain |
| P9 | annog a chynnal asesiad risg yn ystod yr her, gan gymryd camau priodol i fireinio'r cynllun |
| P10 | adolygu gyda'r bobl ifanc y profiadau y maent wedi eu hennill o ymgymryd â'r her ac annog eu mewnweledìad parthed y gwersi a ddysgwyd |

# LSIYW09
Cefnogi pobl ifanc yn eu dealltwriaeth o risg a her

## Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

| | |
|---|---|
| K1 | gofynion cyfreithiol a sefydliadol yn ymwneud â rheoli'r risgiau gyda phobl ifanc, ac effaith y gofynion hyn ar eich rôl chi |
| K2 | dulliau ar gyfer sefydlu cydberthynas gyda phobl ifanc |
| K3 | mathau o risgiau a'r ffactorau sy'n creu gwahanol fathau o risg |
| K4 | pwysigrwydd rheoli risg a dulliau o wneud hyn heb ddiddymu'r agwedd o her mewn gweithgareddau i bobl ifanc |
| K5 | camau allweddol yn y broses rheoli risg |
| K6 | pwysigrwydd nodi heriau o ddiddordeb i bobl ifanc |
| K7 | ffyrdd o weithio gyda phobl ifanc i nodi a disgrifio'n glir risgiau posibl parthed y gweithgareddau arfaethedig |
| K8 | penderfyniadau a chamau y gellir eu hystyried parthed risgiau a nodwyd |
| K9 | pobl berthnasol y mae angen cyfeirio risgiau penodol atynt, ac amgylchiadau pan fydd angen hyn |
| K10 | asiantaethau sydd ar gael i roi cefnogaeth i ddarparu gweithgareddau heriol sy'n briodol i bobl ifanc |
| K11 | dulliau, offer a thechnegau i annog pobl ifanc i fyfyrio ar risgiau a heriau a'r pwyntiau dysgu a gafwyd |
| K12 | lefel cymhwysedd eich hun, a chymhwysedd eraill sy'n ymwneud yn y gweithgareddau, a phwysigrwydd sicrhau bod y rhain yn briodol i'r gweithgareddau |
| K13 | cyfyngiadau eich awdurdod ac at bwy i gyfeirio pan eir y tu hwnt i'r cyfyngiadau hyn |
| K14 | polisïau a gweithdrefnau argyfwng eich sefydliad |
| K15 | gwerthoedd ac egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid |

# LSIYW09
Cefnogi pobl ifanc yn eu dealltwriaeth o risg a her

## Additional Information

### Values

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o'r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy'n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau'n gysylltiedig. Mae'r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i'r gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu'r safon hon. Mae'r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy'n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol.

### Behaviours

1. Trin pobl ifanc â pharch
2. Cydnabod mewnwelediad a chyfraniad pobl ifanc
3. Caniatáu i bobl ifanc ymgymryd â heriau o'u dewis, heb ddylanwad gormodol o'ch dewisiadau a rhagfarnau chi

**LSIYW10**

# Hwyluso grymusiad pobl ifanc trwy eu hymglymiad gweithredol mewn gwaith ieuenctid

## Overview

Mae’r safon hon ar gyfer pob gweithiwr ieuenctid ac yn ymwneud â grymuso pobl ifanc i adeiladu ar eu nodau a’u dyheadau, i nodi opsiynau a dewis gweithgareddau a ffefrir.

Mae’n cynnwys cefnogi’r person ifanc i fyfyrio ar sut mae ei ymglymiad yn datblygu hunanhyder a hunanymwybyddiaeth.

Mae cyfranogiad ac ymglymiad gweithredol pobl ifanc yn rhai o’r gwerthoedd allweddol y mae disgwyl i weithiwyr ieuenctid wybod amdanynt ac sy’n sail i’r safon hon.

# LSIYW10
Hwyluso grymusiad pobl ifanc trwy eu hymglymiad gweithredol mewn gwaith ieuenctid

## Performance criteria

*You must be able to:*

P1 galluogi pobl ifanc i nodi eu man cychwyn o ran hunanymwybyddiaeth a hunanhyder
P2 annog pobl ifanc i nodi eu diddordebau a'u nodau o ymgysylltu â gwaith ieuenctid ac i gysylltu'r rhain i'r deilliannau a geisir
P3 archwilio a nodi gyda phobl ifanc ystod o weithgareddau a chyfleoedd a fyddai'n mynd i'r afael â'u diddordebau a'u nodau
P4 archwilio a chytuno ar ymarferoldeb yr opsiynau, nodi ac ystyried gyda'r bobl ifanc yr adnoddau a'r arbenigedd sydd eu hangen
P5 datblygu'r opsiynau a ffefrir, gweithio gyda'r bobl ifanc i nodi amcanion clir, gan sicrhau y gellir cyflawni'r rhain
P6 gweithio gyda'r bobl ifanc i gytuno ar y gweithgareddau neu'r cyfleoedd i'w gwneud er mwyn cyflawni'r amcanion, a nodi a chael mynediad at yr adnoddau sydd eu hangen
P7 nodi unrhyw bryderon, neu rwystrau, y gellir fod angen eu goresgyn, trafod a chytuno gyda'r bobl ifanc dan sylw sut i fynd i'r afael â'r rhain
P8 annog pobl ifanc i gymryd rhan a myfyrio ar sut mae eu hymglymiad mewn gwaith ieuenctid yn effeithio ar eu hunanymwybyddiaeth a'u hunanhyder
P9 archwilio a chytuno gyda'r bobl ifanc ar y meini prawf ar gyfer gwerthuso a sut i fonitro cynnydd

# LSIYW10

Hwyluso grymusiad pobl ifanc trwy eu hymglymiad gweithredol mewn gwaith ieuenctid

## Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

| | |
|---|---|
| K1 | gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol perthnasol i waith ieuenctid, a'u heffaith ar gyfer eich maes gweithredu personol |
| K2 | dulliau, offer a dangosyddion i archwilio lefelau pobl ifanc o hunanhyder a hunanymwybyddiaeth |
| K3 | pwysigrwydd a manteision sy'n deillio o gyfranogiad pobl ifanc mewn gweithgareddau gwaith ieuenctid, a dulliau ar gyfer cyflawni hyn |
| K4 | sut i gefnogi pobl ifanc i nodi cyfleoedd a gweithgareddau y gallant fod yn gysylltiedig â hwy, a nodi manteision bod yn rhan ynddynt |
| K5 | meysydd ddiddordeb allweddol a nodau cysylltiedig pobl ifanc, a'r mathau o weithgareddau, yn cynnwys y rhai sy'n ymateb i bryderon, rhwystrau a phroblemau, all gyflawni'r nodau hyn |
| K6 | pwysigrwydd peidio â gwthio eich gwerthoedd a'ch syniadau personol ar bobl ifanc |
| K7 | y ffactorau i'w hystyried wrth asesu ymarferoldeb gweithgareddau gwaith ieuenctid, a sut i gynnal asesiad gwrthrychol |
| K8 | y mathau o adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gwahanol weithgareddau a sut i werthuso pa mor addas yw adnoddau dysgu a datblygu i'w defnyddio mewn gwaith ieuenctid |
| K9 | pwysigrwydd cynllunio gweithgareddau sy'n ystyried y gwahaniaethau rhwng unigolion, y ffordd maent yn dewis dysgu a'r dulliau ar gwneud hyn |
| K10 | darparwyr gwasanaethau perthnasol i waith ieuenctid, a dulliau ar gyfer gwerthuso eu haddasrwydd |
| K11 | dulliau effeithiol ar gyfer monitro a gwerthuso gweithgareddau gwaith ieuenctid |
| K12 | gwerthoedd ac egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid |

# LSIYW10
Hwyluso grymusiad pobl ifanc trwy eu hymglymiad gweithredol mewn gwaith ieuenctid

## Additional Information

### Values

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o'r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy'n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau'n gysylltiedig. Mae'r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i'r gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu'r safon hon. Mae'r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy'n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol.

### Behaviours

1. Trin pobl ifanc â pharch
2. Annog a chefnogi eraill i wneud y defnydd gorau o'u galluoedd
3. Rhoi ystyriaeth briodol i sgiliau, aeddfedrwydd a diddordebau pobl ifanc wrth gymryd cyfrifoldeb am gynllunio gweithgareddau gwaith ieuenctid
4. Annog a chydnabod syniadau creadigol
5. Cydnabod mewnwelediad a chyfraniad pobl ifanc

# LSIYW11
Cynllunio, paratoi a hwyluso gweithgareddau gyda phobl ifanc

## Overview

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr ieuenctid sy'n ymwneud â datblygu gweithgareddau ar gyfer a gyda phobl ifanc, sy'n rhan allweddol o nifer o rolau gwaith ieuenctid.

Mae'n cynnwys cynllunio, paratoi a hwyluso gweithgareddau yn ymwneud â phobl ifanc. Mae hefyd yn cynnwys pobl ifanc yng nghynllunio gweithgareddau.

# LSIYW11
Cynllunio, paratoi a hwyluso gweithgareddau gyda phobl ifanc

## Performance criteria

*You must be able to:*

P1 nodi a chytuno gyda phobl ifanc y gweithgareddau sy'n berthnasol i'w hanghenion ac yn briodol ar gyfer y lleoliad

P2 cynnwys pobl ifanc yn y gwaith o gynllunio a pharatoi gweithgareddau, a'u hannog i gymryd perchnogaeth

P3 gweithio gyda phobl ifanc i nodi, cytuno a chofnodi'r camau i'w cymryd i gyflawni'r gweithgareddau a gytunwyd

P4 nodi unrhyw bryderon, cyfyngiadau neu rwystrau posibl i'w goresgyn er mwyn cyflawni'r gweithgaredd a chytuno gyda'r bobl ifanc dan sylw sut i fynd i'r afael â'r rhain

P5 nodi a chaffael yr wybodaeth ac adnoddau angenrheidiol ar gyfer gweithgareddau a gytunir

P6 cytuno gyda phobl ifanc ar y rheolau sylfaenol a'r nodau ar gyfer y gweithgaredd ac unrhyw feini prawf a ddefnyddir i fonitro a gwerthuso llwyddiant y gweithgaredd

P7 nodi unrhyw ymddygiad annerbyniol a delio'n briodol a theg â hyn

P8 cydnabod y cyfraniadau llwyddiannus a chwblhad gweithgareddau, cydnabod y rhai sydd yn gysylltiedig

P9 cynnwys pobl ifanc mewn monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y gweithgaredd a nodi dulliau o wella gweithgareddau

P10 gweithio o fewn gwerthoedd a gofynion y sefyllfa sy'n berthnasol i'ch gwaith eich hun

P11 gweithio o fewn cwricwla neu raglenni presennol lle bo'n berthnasol a chymwys

P12 gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau eraill i gyflawni gweithgareddau i bobl ifanc

**LSIYW11**
# Cynllunio, paratoi a hwyluso gweithgareddau gyda phobl ifanc

## Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

| | |
|---|---|
| K1 | y gofynion cyfreithiol a sefydliadol sy’n berthnasol i waith gyda phobl ifanc, yn cynnwys eich rhai chi a sefydliadau perthnasol eraill |
| K2 | pwysigrwydd cytuno ar weithgareddau perthnasol a phriodol gyda phobl ifanc |
| K3 | dulliau ac offer addas ar gyfer cynllunio gweithgareddau gwaith ieuenctid |
| K4 | prosesau a thechnegau ar gyfer cynllunio a datblygu gweithgareddau gyda phobl ifanc |
| K5 | pwysigrwydd cynllunio gweithgareddau sy’n ystyried dulliau dysgu a ffefrir gan y rhai sy’n cymryd rhan, a sut i wneud hyn |
| K6 | rhwystrau posibl i ddysgu effeithiol a gweithgareddau a dulliau i fynd i’r afael â’r rhain |
| K7 | y mathau o leoliadau ac adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gweithgareddau, a chyfleoedd, opsiynau a chyfyngiadau tuag at gaffael y rhain o fewn cyllideb a gofynion amser |
| K8 | ffyrdd o annog pobl ifanc i gymryd rhan yn y gweithgareddau a gytunwyd |
| K9 | pam ei bod yn bwysig monitro’r gweithgaredd ar gyfer gwrthdaro a sut i fynd i’r afael â hyn yn brydlon a theg |
| K10 | ffyrdd effeithiol o weithio gydag a chynnwys pobl ifanc yn y gwaith o fonitro a gwerthuso gweithgareddau |
| K11 | sut i adnabod cyflawniad, ac i roi adborth adeiladol i bobl ifanc |
| K12 | gwerthoedd ac egwyddorion sy’n sail i waith ieuenctid |

# LSIYW11
Cynllunio, paratoi a hwyluso gweithgareddau gyda phobl ifanc

## Additional Information

### Values

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o'r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy'n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau'n gysylltiedig. Mae'r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i'r gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu'r safon hon. Mae'r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy'n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol.

### Behaviours

1. Blaenoriaethu amcanion a chynllunio gwaith i wneud y defnydd gorau o amser ac adnoddau.
2. Dangos cywirdeb, tegwch a chysondeb mewn gwneud penderfyniadau a chynnwys pobl ifanc yn y broses
3. Annog a chefnogi eraill i wneud y defnydd gorau o'u galluoedd
4. Cydnabod mewnwelediad a chyfraniad pobl ifanc
5. Mynd ati'n weithredol i ddeall, cadw ac ymateb yn adeiladol i unrhyw bryderon

**LSIYW12**
# Gweithio gyda phobl ifanc i reoli adnoddau ar gyfer gweithgareddau gwaith ieuenctid

## Overview

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr ieuenctid sy'n cefnogi pobl ifanc i reoli adnoddau, yn cynnwys cyllid, ar gyfer digwyddiad, gweithgaredd ac/neu brosiect. Mae hefyd yn addas i'r rhai sy'n rheoli adnoddau a chyllid prosiect o'r fath eu hunain.

Mae'r safon hon yn delio â gweithio gyda phobl ifanc i lunio cynllun ariannol a phrosiect ar gyfer digwyddiad, gweithgaredd ac/neu brosiect, rheoli'r adnoddau sydd eu hangen, monitro'r incwm a'r gwariant a chadw cofnodion cywir.

# LSIYW12
## Gweithio gyda phobl ifanc i reoli adnoddau ar gyfer gweithgareddau gwaith ieuenctid

### Performance criteria

*You must be able to:*

P1 gwerthuso gwybodaeth sydd ar gael ac ymgynghori â'r partïon perthnasol i sefydlu'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer y gweithgaredd arfaethedig

P2 gweithio gyda phobl ifanc i nodi'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y gweithgaredd arfaethedig, yn cynnwys y sgiliau angenrheidiol, amser pobl, offer a deunyddiau

P3 cynorthwyo pobl ifanc i nodi unrhyw fylchau yn yr adnoddau ar gael sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion ar gyfer y gweithgaredd, ac i archwilio opsiynau i lenwi'r bylchau, a'r effaith ar gyllidebau

P4 gweithio gyda phobl ifanc i ddatblygu a gweithredu cynlluniau realistig i godi arian a chaffael adnoddau pellach

P5 cynnwys pobl ifanc mewn paratoi cynllun prosiect cywir ar gyfer y gweithgaredd, gan sefydlu rhaglen o weithredoedd

P6 cytuno ar gynllun a chyllideb y prosiect gyda'r bobl ifanc dan sylw ac unrhyw bartïon eraill perthnasol

P7 gweithio gyda phobl ifanc i sefydlu system gywir a hawdd ei deall ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn yr amserlen a chyllideb

P8 cyfarwyddo pawb sy'n gysylltiedig parthed y prosiect, gan sicrhau eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau

P9 monitro'r gwariant ac unrhyw incwm wrth ddatblygu'r gweithgaredd, nodi unrhyw amrywiad sylweddol o'r gyllideb yn gyflym, y rhesymau dros y rhain, a gweithredu'n brydlon a phriodol

P10 gweithio gyda phobl ifanc i gyflawni'r amcanion ar gyfer y gweithgaredd, gan ddefnyddio llwyddiant y gweithgaredd, nodi unrhyw welliannau yn sut i reoli'r adnoddau, a defnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu gwaith yn y dyfodol

P11 cadw cofnodion clir, cywir a chynhwysfawr ar ffurf y gall pobl eraill ei deall

# LSIYW12
## Gweithio gyda phobl ifanc i reoli adnoddau ar gyfer gweithgareddau gwaith ieuenctid

### Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

| | |
|---|---|
| K1 | gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol yn ymwneud â gwaith ieuenctid, a'u heffaith ar eich maes gweithredu chi |
| K2 | deddfwriaeth a chanllawiau sefydliadol yn ymwneud â chodi arian neu adnoddau eraill ar gyfer gweithgareddau gwaith ieuenctid |
| K3 | y wybodaeth sydd angen a'u ffynonellau i baratoi amcangyfrif realistig o'r gyllideb a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y gweithgareddau |
| K4 | pwysigrwydd cyfranogiad pobl ifanc i nodi, cynllunio, a rheoli adnoddau |
| K5 | pwysigrwydd treulio amser , ac ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol wrth nodi'r adnoddau sydd eu hangen a sefydlu cyllideb ar gyfer gweithgareddau |
| K6 | sut i baratoi, cytuno a monitro cyllideb gyda phobl ifanc |
| K7 | atebolrwydd ariannol ac i ba raddau y mae pobl yn ariannol gyfrifol yn eu sefydliad eu hunain |
| K8 | sut i werthuso gofynion adnoddau a nodi unrhyw fylchau |
| K9 | pam ei bod yn bwysig cefnogi pobl ifanc i gael eu hadnoddau eu hunain ar gyfer gweithgareddau |
| K10 | yr ystod o adnoddau sydd ar gael, o fewn a thu allan i'w sefydliad eu hunain |
| K11 | sut i osod, monitro a dogfennu cynlluniau gweithredu gyda phobl ifanc |
| K12 | systemau ar gyfer olrhain incwm a gwariant yn ystod gweithrediad digwyddiad, gweithgaredd neu brosiect |
| K13 | pam ei bod yn bwysig monitro gwariant yn ofalus a chynnwys pobl ifanc yn y gwaith monitro |
| K14 | pwysigrwydd darparu gwybodaeth gywir a rheolaidd ynglŷn â pherfformiad yn erbyn y gyllideb i bobl berthnasol |
| K15 | cyfyngiadau awdurdod personol, ac at bwy i gyfeirio pan fo angen |
| K16 | gwerthoedd ac egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid |

**LSIYW12**

# Gweithio gyda phobl ifanc i reoli adnoddau ar gyfer gweithgareddau gwaith ieuenctid

## Additional Information

| | |
|---|---|
| **Values** | Gan weithio gyda chynrychiolwyr o'r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy'n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau'n gysylltiedig. Mae'r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i'r gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu'r safon hon. Mae'r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy'n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol. |
| **Behaviours** | 1. Cyflwyno gwybodaeth yn glir, cywir a chryno, ac mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo dealltwriaeth<br>2. Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael, a mynd ati i geisio ffynonellau newydd o gefnogaeth pan fo angen<br>3. Trin pobl ifanc â pharch<br>4. Gweithio o fewn ffiniau'ch awdurdod |
| **Glossary** | Defnyddir **'Gweithgaredd'** yn y safon hon ar gyfer digwyddiad, gweithgaredd ac/neu brosiect |

**LSIYW13**
# Cefnogi pobl ifanc i werthuso effaith gweithgareddau gwaith ieuenctid

## Overview

Mae'r safon hon yn ymwneud â chefnogi pobl ifanc i werthuso gweithgareddau gwaith ieuenctid maent yn ymwneud â nhw. Mae'n cynnwys nodi sut mae gweithgareddau yn effeithio ar eu datblygiad eu hunain, a sut y gellir gwella gweithgareddau o'r fath.

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr ieuenctid sy'n ymwneud â chefnogi pobl ifanc mewn gwerthuso effaith gweithgareddau.

# LSIYW13
## Cefnogi pobl ifanc i werthuso effaith gweithgareddau gwaith ieuenctid

### Performance criteria

*You must be able to:*

P1 Nodi’r gweithgareddau gwaith ieuenctid y mae pobl ifanc wedi bod yn gysylltiedig â hwy

P2 Archwilio gyda phobl ifanc eu cymhelliant, dyheadau, anghenion a phryderon yn ymwneud â’u cyfranogiad mewn gweithgareddau gwaith ieuenctid, cyn eu bod yn ymwneud yn y gweithgaredd

P3 Archwilio gyda phobl ifanc sut mae eu cymhellant, dyheadau, anghenion a phryderon wedi datblygu yn ystod gweithgareddau, a’u canfyddiad ynglŷn â sut mae eu cyfranogiad wedi effeithio ar eu datblygiad

P4 Cefnogi pobl ifanc i nodi unrhyw rwystrau a chyfyngiadau gweithgareddau gwaith ieuenctid sy’n effeithio ar gyflawniad nodau datblygu

P5 nodi a chytuno gyda phobl ifanc ar nodau datblygu, dangosyddion a mesurau a ddefnyddir i asesu llwyddiant y gweithgaredd gwaith ieuenctid

P6 cytuno ar ddangosyddion sy’n fesuradwy a realistig, ac sy’n unol â’r gweithgaredd yn mynd i’r afael ag anghenion y bobl ifanc

P7 nodi a chytuno gyda phobl ifanc y gweithredu hynny sy’n briodol i fonitro cynnydd yn erbyn y dangosyddion

P8 gweithio gyda phobl ifanc i fonitro'r dangosyddion a gytunwyd

P9 myfyrio ar weithgareddau a deilliannau gyda’r bobl ifanc dan sylw a gwerthuso gyda hwy lwyddiant y gweithgaredd yn erbyn y dangosyddion a gytunwyd

P10 cynorthwyo pobl ifanc i nodi a datblygu cynigion a nodau datblygu yn y dyfodol yn deillio o’u gwerthusiad

P11 defnyddio’r dangosyddion a gwerthuso i hysbysu gweithgareddau gwaith ieuenctid yn y dyfodol

# LSIYW13
Cefnogi pobl ifanc i werthuso effaith gweithgareddau gwaith ieuenctid

## Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

K1 gofynion cyfreithiol, sefydliadol a moesegol perthnasol i waith ieuenctid, a'u heffaith o fewn eu maes cyfrifoldeb eu hunain

K2 y mathau o nodau datblygu a allai fod gan bobl ifanc a sut y gall gweithgareddau gwaith ieuenctid gyfrannu at eu cyflawniad

K3 Sut i osod nodau ac amcanion datblygu sy'n berthnasol i bobl ifanc

K4 y rhwystrau a'r cyfyngiadau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu i gyflawni eu nodau datblygu a'r camau posibl tuag at fynd i'r afael â'r rhain

K5 yr asiantaethau cefnogaeth sydd ar gael all gynorthwyo cyflawniad datblygiad golau datblygu pobl ifanc a sut i gynnwys asiantaethau o'r fath

K6 pwysigrwydd monitro a gwerthuso gweithgareddau gwaith ieuenctid gyda phobl ifanc a dulliau ar gyfer gwneud hyn

K7 gwerth a manteision i bobl ifanc o fyfyrio ar eu gweithgareddau a deilliannau a gyflawnwyd

K8 pwysigrwydd cynnwys pobl ifanc mewn gwerthuso effaith gweithgareddau a hyrwyddo eu perchnogaeth o'r broses, a dulliau ar gyfer cyflawni hyn

K9 mesurau llwyddiant ar gyfer gweithgareddau gwaith ieuenctid nodweddiadol

K10 pwysigrwydd ymgynghori â chydweithwyr a rhanddeiliaid wrth ddatblygu a chytuno ar ddangosyddion a mesurau

K11 pwysigrwydd hyrwyddo llwyddiant gweithgareddau gwaith ieuenctid

K12 rôl a chyfrifoldebau eich hun ac at bwy i gyfeirio os eir y tu hwnt i'r rhain

K13 gwerthoedd ac egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid

# LSIYW13
Cefnogi pobl ifanc i werthuso effaith gweithgareddau gwaith ieuenctid

## Additional Information

### Values

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o’r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy’n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau’n gysylltiedig. Mae’r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i’r gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu’r safon hon. Mae’r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy’n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol.

### Behaviours

1. Trin pobl ifanc â pharch
2. Cydnabod mewnwelediad a chyfraniad pobl ifanc
3. Cynnwys pobl ifanc mewn gwneud penderfyniadau
4. Ceisio deall anghenion a chymhelliad pobl eraill
5. Defnyddio dulliau ac arddulliau priodol o gyfathrebu sy’n addas i ofynion a galluoedd pobl eraill

# LSIYW14
Hwyluso archwiliad pobl ifanc o'u gwerthoedd a'u credoau

## Overview

Mae'r safon hon yn ymwneud â gweithio gyda phobl ifanc i hwyluso archwiliad o'u gwerthoedd a chredoau, parthed eu hunain ac eraill.

Gall yr archwiliad o werthoedd a chredoau gwmpasu ystod eang o bynciau megis: cymuned, gwerthoedd diwylliannol, gwahaniaethu, yr amgylchedd, moesegau, ffydd, materion byd-eang, iechyd, credoau ideolegol, gwrthdaro rhwng ac o fewn grŵp neu gymuned, moesoldeb, credoau athronyddol, barn wleidyddol, perthnasoedd, credoau crefyddol ac ysbrydolrwydd, cynnwys daliadau di-gred.

Mae'r safon yn cynnwys galluogi pobl ifanc i gynyddu eu synnwyr o'u hunan werth trwy hunanymwybyddiaeth ac i feithrin hunan-barch. Mae'n hwyluso pobl ifanc i feddwl yn feirniadol am y gwerthoedd a'r credoau sydd ganddynt, sut maent wedi caffael y rhain ac i ddeall yr effeithiau cadarnhaol a negyddol y gall y rhain eu cael ar eu bywydau a bywydau pobl eraill.

Wrth i waith ieuenctid geisio gwneud cyfraniad gweithredol i ddatblygiad cymdeithas gyda gwahanol nodweddion a safbwyntiau amrywiol, rhaid cynnal archwiliad o werthoedd a chredoau o fewn cyd-destun hyrwyddo perthynas dda a chyfle cyfartal i bawb.

Mae'r safon ar gyfer pob gweithiwr ieuenctid. Gellir ei dehongli a chymhwyso fel sy'n briodol i'r cyd-destun y mae gweithwyr ieuenctid yn gweithredu ynddo ac nid yw wedi ei fwriadu i fod yn gyfyngol nac anghynhwysol.

# LSIYW14
## Hwyluso archwiliad pobl ifanc o'u gwerthoedd a'u credoau

### Performance criteria

*You must be able to:*

| | | |
|---|---|---|
| P1 | archwilio gyda phobl ifanc beth a olygir gan 'gwerthoedd' a 'chredoau' a'r cysylltiadau a gwahaniaethau rhyngddynt |
| P2 | helpu pobl ifanc i ddeall lle natur, magwraeth, cyd-destun a chymuned yn natblygiad 'gwerthoedd' a 'chredoau' |
| P3 | sicrhau bod yr amgylchedd ble mae'r archwiliad yn digwydd yn ddiogel ac yn briodol i chi a'r bobl ifanc |
| P4 | galluogi pobl ifanc i archwilio gwerthoedd a chredoau gwahanol i'w rhai eu hunain |
| P5 | galluogi pobl ifanc i ddeall sut mae gwerthoedd a chredoau yn effeithio ar faterion 'cywir' ac 'anghywir' |
| P6 | cydnabod sut y gallai eich gwerthoedd a'ch credoau chi ddylanwadu ar y rhyngweithio gyda phobl ifanc |
| P7 | galluogi pobl ifanc i archwilio eu gwerthoedd a'u credoau, heb orfodi eich gwerthoedd eich hunain arnynt |
| P8 | archwilio gyda phobl ifanc y dewisiadau y gallant eu gwneud parthed eu gwerthoedd a chredoau |
| P9 | meithrin ymddiriedaeth gyda phobl ifanc i'w galluogi i archwilio goblygiadau eu gwerthoedd a'u credoau arnynt eu hunain, eu hymddygiad a sut y gall eraill ymateb iddynt |
| P10 | galluogi pobl ifanc i rannu dealltwriaeth o werthoedd a chredoau heb eu gorfodi ar eraill |
| P11 | archwilio gyda phobl ifanc sut mae gwerthoedd a chredoau yn cyfrannu i hunanhyder, hunanddelwedd a hunan-barch cadarnhaol neu negyddol |
| P12 | annog pobl ifanc i ddathlu llwyddiant, llongyfarch ei gilydd a datblygu hunan-barch eraill |
| P13 | annog pobl ifanc i rannu eu gwerthoedd a'u credoau i adlewyrchu sut a phwy maent eisiau bod |
| P14 | bodloni gwerthoedd ac egwyddorion sy'n ategu gwaith ieuenctid wrth weithio gyda phobl ifanc i archwilio a datblygu eu gwerthoedd a'u credoau |

# LSIYW14
Hwyluso archwiliad pobl ifanc o’u gwerthoedd a’u credoau

## Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

| | |
|---|---|
| K1 | beth a olygir gan ‘gwerthoedd a chredoau’, a pham ei bod yn bwysig annog pobl ifanc i archwilio eu gwerthoedd a’u credoau eu hunain |
| K2 | pam ei bod yn bwysig bod yn ymwybodol o'ch gwerthoedd a’ch credoau eich hun, ac i fod yn barod i'w trafod |
| K3 | perthynas gwerthoedd i faterion ‘cywir’ ac ‘anghywir’ |
| K4 | pwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth gyda phobl ifanc er mwyn cael sgyrsiau ynglŷn â gwerthoedd a chredoau, a sut i sefydlu ymddiriedaeth |
| K5 | gwerthoedd a chredoau y gallai pobl ifanc ddod ar eu traws all ddylanwadu ar eu gwerthoedd a’u credoau eu hunain, yn cynnwys diwylliannau ethnig a chymdeithasol, ideolegol, ysbrydol, athronyddol, credoau gwleidyddol a daliadau di-gred |
| K6 | gwahanol gyd-destunau, diwylliannau a safbwyntiau parthed gwerthoedd i’w cael yng nghymunedau pobl ifanc, y gymdeithas ehangach ac yn genedlaethol |
| K7 | y berthynas rhwng gwerthoedd, credoau ac ymddygiad |
| K8 | technegau a gweithgareddau sy’n annog pobl ifanc i fod yn fwy hunanymwybodol a chydnabod ei hunanddelwedd |
| K9 | effeithiau a chanlyniadau posibl hunanhyder, hunanddelwedd a hunan-barch cadarnhaol neu negyddol |
| K10 | pwysigrwydd parchu hawl person ifanc i fod â barn am y byd a hwy eu hunain |
| K11 | gweithgareddau a thechnegau sy’n gallu rhoi’r teimlad o lwyddiant a hunanwerth i bobl ifanc |
| K12 | gwerthoedd ac egwyddorion sy’n sail i waith ieuenctid |

# LSIYW14
## Hwyluso archwiliad pobl ifanc o'u gwerthoedd a'u credoau

## Additional Information

### Values

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o'r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy'n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau'n gysylltiedig. Mae'r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i'r gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu'r safon hon. Mae'r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy'n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol.

### Behaviours

1. Trin pobl ifanc â pharch
2. Cydnabod y person ifanc fel partner yn y broses ddysgu, cydnabod ei fewnweledïad a'i fewnbwn
3. Annog pobl ifanc i fynegi sut maent yn teimlo, a derbyn eu barn am eu hunain
4. Gwerthfawrogi pobl ifanc am beth ydynt, a beth allant gynnig
5. Parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol
6. Gweithio yn ôl y gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid

# LSIYW15
Eirioli ar ran pobl ifanc a'u galluogi i gynrychioli eu hunain i eraill

## Overview

Pwysigrwydd cyfranogiad a chynnwys pobl ifanc yw rhai o'r gwerthoedd y mae disgwyl i weithwyr ieuenctid wybod amdanynt a'u rhoi ar waith. Mae annog pobl ifanc i gymryd rhan a chael eu cynnwys mewn eiriolaeth yn cefnogi datblygiad sgiliau a hyder pobl ifanc.

Mae'r safon hon yn ymwneud â chefnogi pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu i gynrychioli eu hunain, eu barn a buddiannau i eraill. Mae hefyd yn cynnwys nodi anghenion a buddiannau unigolion neu grwpiau o bobl ifanc, a chynrychioli eu hanghenion a'u buddiannau yn gywir a theg.

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr ieuenctid sy'n cyfathrebu ac yn gweithredu ar ran pobl ifanc, neu sy'n annog pobl ifanc i gynrychioli eu hunain.

# LSIYW15
Eirioli ar ran pobl ifanc a'u galluogi i gynrychioli eu hunain i eraill

## Performance criteria

*You must be able to:*

P1 nodi modelau eiriolaeth gyda phobl ifanc

P2 cytuno gyda phobl ifanc ar y materion allweddol maent eisiau mynd i'r afael â hwy trwy eiriolaeth, y canlyniadau a ddymunir a'r gofynion gwybodaeth

P3 nodi gyda'r bobl ifanc y bobl briodol fydd angen iddynt gyfathrebu ac ymgysylltu â hwy, yn cynnwys gwneuthurwyr penderfyniadau a'r rhai sy'n dylanwadu

P4 nodi gyda phobl ifanc y cyfleoedd i gyfranogi ac i gynrychioli eu hunain

P5 cynorthwyo pobl ifanc i gasglu gwybodaeth ddigonol a dilys i'w galluogi i gefnogi a chynrychioli eu barn a buddiannau

P6 archwilio a chytuno gyda phobl ifanc sut i gynrychioli eu barn a'u buddiannau, yn seiliedig ar ystyriaeth o safbwyntiau a ragwelir gan y gynulleidfa

P7 cynorthwyo pobl ifanc i gynllunio eu cyflwyniad

P8 sicrhau fod pobl ifanc yn cynrychioli eu hunain ble bynnag y bo'n bosibl

P9 nodi gyda phobl ifanc unrhyw agwedd ble maent yn teimlo nad oes ganddynt y sgiliau na'r hyder, a chefnogi pobl ifanc i fynd i'r afael â'r rhain

P10 gweithio gyda phobl ifanc i fynd i'r afael ag unrhyw gyfyngiadau neu rwystrau i gynrychioli eu hunain yn effeithiol

P11 nodi pryd mae angen eirioli ar ran pobl ifanc

P12 adolygu gwybodaeth sydd ar gael ynglŷn ag anghenion pobl ifanc a chasglu gwybodaeth atodol i sicrhau eiriolaeth gywir a theg

P12 gwerthuso a blaenoriaethu'r gofynion ar gyfer gweithgareddau gwaith ieuenctid o'ch sefydliad, gan ystyried y galw tebygol a ffactorau sy'n dylanwadu ar y nifer y bobl ifanc sy'n manteisio ar weithgareddau o'r fath yn y gymuned

P13 nodi ble mae cyfleoedd gwaith ieuenctid y tu hwnt i gwmpas darpariaeth gwaith ieuenctid eich sefydliad, a nodi ac asesu cymhwysedd ac addasrwydd darparwyr allanol

P14 gwneud argymhellion rhesymol parthed gweithredoedd sy'n briodol i fodloni'r gofynion a nodwyd

# LSIYW24
## Gwerthuso a blaenoriaethu gofynion sefydliadol ar gyfer gweithgareddau gwaith ieuenctid

### Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

| | |
|---|---|
| K1 | gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol sy'n effeithio ar ddarpariaeth gweithgareddau gwaith ieuenctid, a'u heffaith ar eich gwaith |
| K2 | pwysigrwydd archwilio a nodi tueddiadau a datblygiadau sy'n effeithio ar y galw am weithgareddau gwaith ieuenctid yn eich cymuned, a dulliau ar gyfergwneud hyn |
| K3 | dulliau o gasglu adborth gan bobl ifanc, asiantaethau perthnasol a rhanddeiliaid, a'u manteision ac anfanteision perthnasol |
| K4 | materion a allai fod yn berthnasol i ganfod y gofynion ar gyfer gweithgareddau gwaith ieuenctid yn eich cymuned |
| K5 | sut i werthuso a blaenoriaethau cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau gwaith ieuenctid, ac i ddatblygu senarios yn y dyfodol |
| K6 | pwysigrwydd gwneud asesiad ariannol i'r cyfleoedd a nodwyd, a sut i wneud hyn |
| K7 | yr ystod o weithgareddau gwaith ieuenctid a ddarperir yn eich cymuned eich hun |
| K8 | yr asiantaethau a'r rhanddeiliaid hynny sy'n ymwneud â phobl ifanc yn eich cymuned eich hun, eu rolau a'u cyfrifoldebau, a dulliau ar gyfer eu cynnwys |
| K9 | sut i gyflwyno gwybodaeth mewn dulliau sy'n dal diddordeb ac yn annog gweithredu |
| K10 | pwysigrwydd cynllunio tymor hir a chanolig i lwyddiant sefydliad |
| K11 | egwyddorion rheolaeth a chynllunio strategol |
| K12 | gwerthoedd ac egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid |

# LSIYW24
Gwerthuso a blaenoriaethu gofynion sefydliadol ar gyfer gweithgareddau gwaith ieuenctid

## Additional Information

### Values

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o'r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy'n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau'n gysylltiedig. Mae'r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i'r gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu'r safon hon. Mae'r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy'n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol.

### Behaviours

1. Arddangos dealltwriaeth glir o anghenion eich cymuned a'r bobl ifanc sydd ynddi
2. Gwneud y defnydd gorau o ffynonellau gwybodaeth presennol
3. Rhagweld senarios tebygol yn seiliedig ar ddadansoddiad realistig o ofynion a thueddiadau
4. Mynegi'r tybiaethau a wnaethpwyd, a'r risgiau dan sylw, wrth ddeall sefyllfa
5. Cyflwyno gwybodaeth a dadleuon
6. Trin pobl ifanc â pharch

**LSIYW25**
# Dylanwadu ar a datblygu strategaethau gwaith ieuenctid

## Overview

Mae’r safon hon ar gyfer gweithwyr ieuenctid sy’n ymwneud â chyfrannu i a dylanwadu ar strategaeth gwaith ieuenctid, megis gwneud awgrymiadau ar gyfer gwelliannau. Mae hefyd yn addas i rai sy’n datblygu strategaethau gwaith ieuenctid, yn blaenoriaethu adnoddau ac yn cynllunio a chytuno ar raglenni gwaith ieuenctid cysylltiedig.

Mae’r safon hon yn cwmpasu cyflwyno gwybodaeth i gefnogi ffurfio strategaeth, polisïau a gweithgareddau ar gyfer gwaith ieuenctid a ddarperir gan y sefydliad, yn ogystal â chyfrannu i adolygiadau a dylanwadu ar bolisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae’n cynnwys pennu blaenoriaethau strategol ar gyfer gwaith ieuenctid, datblygu cynllun strategol cysylltiedig ar gyfer cyflawni gwaith ieuenctid a monitro'r gweithrediadau parthed amcanion cyffredinol.

# LSIYW25
Dylanwadu ar a datblygu strategaethau gwaith ieuenctid

## Performance criteria

*You must be able to:*

P1 trafod gydag asiantaethau eraill i gael gwybodaeth sy’n briodol i nodi’r rhannau hynny o’r gymuned sydd wedi eu gwasanaethu gan eich sefydliad

P2 nodi’r rhannau hynny o’r gymuned sy’n fwyaf tebygol o fod yn ymatebol i raglenni gwaith ieuenctid a’r ffactorau yn effeithio ar eu diddordeb mewn gweithgaredd gwaith ieuenctid

P3 canfod tueddiadau a datblygiadau yn niddordebau, anghenion ac ymglymiad pobl ifanc yn y gweithgareddau gwaith ieuenctid yn y gymuned, a’u heffaith ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid

P4 pennu newidiadau perthnasol sydd eu hangen mewn polisïau, cynlluniau a gweithgareddau, a blaenoriaethu’r rhain yn unol â’u heffaith ar fynd i’r afael ag anghenion pobl ifanc

P5 pennu a chytuno ar y meysydd blaenoriaeth i ganolbwyntio adnoddau eich sefydliad, yn cynnwys rhesymeg dros gyfiawnhau’r casgliadau

P6 asesu opsiynau parthed rhaglenni gwaith ieuenctid y gellir eu cynnig, sy’n gyson â’r meysydd blaenoriaeth a’u hanghenion

P7 nodi materion ynglŷn â gweithrediad strategaeth a gweithdrefnau gwaith ieuenctid a datblygu argymhellion pendant ar gyfer gwelliannau

P8 defnyddio tystiolaeth briodol parthed datblygiadau sy’n effeithio ar bobl ifanc i gyfiawnhau unrhyw angen a nodwyd ar gyfer newidiadau i bolisïau, cynlluniau a gweithgareddau

P9 cyflwyno argymhellion wedi eu cyfiawnhau ar gyfer gwella strategaethau, polisi a darpariaeth gwaith ieuenctid, gan amlinellu’n glir a chywir y manteision

P10 lledaenu gwybodaeth i bobl berthnasol i ddylanwadu ar ddatblygiad strategaeth a darpariaeth gwaith ieuenctid mewn pryd iddo fod o ddefnydd

P11 nodi ac asesu risgiau perthnasol sy’n gysylltiedig â’r opsiynau a ystyriwyd, cydbwyso’r risgiau a nodwyd gyda’r deilliannau a ddymunir

P12 archwilio’r cyfleoedd ar gyfer partneriaethau strategol a chysylltiadau gydag asiantaethau eraill tuag at gyflawni'r nodau gofynnol

P13 cytuno gyda phartïon perthnasol ar y camau i ddatblygu cyfleoedd newydd a gweithgareddau cysylltiedig, a gweithredoedd, adnoddau, rolau a chyfrifoldebau pawb dan sylw

P14 nodi a chymhwyso mesurau perfformiad allweddol a dulliau ar gyfer monitro a gwerthuso effeithiolrwydd rhaglenni a strategaeth a gytunwyd

# LSIYW25
Dylanwadu ar a datblygu strategaethau gwaith ieuenctid

## Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

| | |
|---|---|
| K1 | gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol perthnasol i waith ieuenctid, a'r effaith ar eich gweithgarwch eich hun |
| K2 | dulliau ar gyfer rhagweld tueddiadau a datblygiadau a nodi ffactorau a allai effeithio ar bolisïau a strategaeth mewn gwaith ieuenctid |
| K3 | rôl eich sefydliad, ei weithgareddau, polisïau, strategaethau a gweithdrefnau |
| K4 | pwysigrwydd a gwerth cynllunio tymor hir a thymor canolig i lwyddiant y sefydliad |
| K5 | swyddogaethau, anghenion, disgwyliadau a gweithgareddau prif asiantaethau ac asiantaethau eraill o fewn gwaith ieuenctid a sut maent yn berthnasol i'ch sefydliad |
| K6 | unigolion perthnasol a grwpiau cymunedol sydd â chyfran yn natblygiad polisi a strategaeth gwaith ieuenctid a ffactorau sy'n effeithio ar eu cefnogaeth ar gyfer gwaith ieuenctid |
| K7 | egwyddorion a phrosesau sy'n ategu datblygiad polisi a strategaeth a'r ffactorau a blaenoriaethau a allai ddylanwadu ar ddatblygiad a derbyniad polisïau |
| K8 | dulliau ac offer i ddadansoddi gwybodaeth berthnasol ac asesu goblygiadau |
| K9 | dulliau i gynnwys ac ymgynghori gyda chymunedau ac asiantaethau, partneriaid a rhanddeiliaid eraill wrth gytuno ar flaenoriaethau a datblygiadau |
| K10 | sut i gyflwyno gwybodaeth ac argymhellion mewn ffyrdd effeithiol |
| K11 | y problemau cyffredin y gellir eu profi wrth geisio gweithredu strategaethau newydd |
| K12 | sut i ddatblygu cynlluniau a rhaglenni ar gyfer cyfleodd gwaith ieuenctid sy'n nodi gweithgaredd rolau, adnoddau a meysydd allweddol eraill |
| K13 | yr adnoddau sydd ar gael i'ch sefydliad a ffynonellau gwybodaeth a all gynorthwyo blaenoriaethu adnoddau |
| K14 | sut i nodi risgiau posibl parthed cyflawni nodau a sut i fynd i'r afael â materion i ddatblygu datrysiadau |
| K15 | sut i ddatblygu mesurau a dulliau ar gyfer monitro a gwerthuso llwyddiant rhaglenni gwaith ieuenctid |
| K16 | egwyddorion cyfrinachedd, a sut i ddatblygu canllawiau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng unigolion ac asiantaethau |
| K17 | eich rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun a gan bwy ddylid ceisio cymorth a chyngor pan fydd angen |
| K18 | gwerthoedd ac egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid |

**LSIYW25**

# Dylanwadu ar a datblygu strategaethau gwaith ieuenctid

## Additional Information

### Values

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o'r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy'n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau'n gysylltiedig. Mae'r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i'r gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu'r safon hon. Mae'r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy'n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol.

### Behaviours

1. Dangos empathi â theimladau, anghenion a chymhelliannau pobl eraill
2. Herio'r sefyllfa bresennol yn adeiladol a cheisio dewisiadau amgen gwell
3. Darparu gwybodaeth gywir, berthnasol a chryno, annog cwestiynau a gwirio ar gyfer dealltwriaeth
4. Rhyddhau amser i gefnogi eraill
5. Cydnabod cyfraniad a mewnwelediad pobl ifanc

# LSIYW26
Nodi a sicrhau cyllid ac adnoddau ar gyfer gwaith ieuenctid

## Overview

Mae'r safon hon yn ymwneud â phennu ffynonellau cyllid ac adnoddau eraill ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc a sefydlu perthynas waith dda gyda deiliad cronfeydd gwirioneddol a rhai posibl. Mae'n cynnwys cyflwyno cynigion ar gyfer cyllid, neu fathau eraill o gefnogaeth, a thrafod amodau cynnig i gwblhau llwyddiannus.

Mae'r safon ar gyfer gweithwyr sydd â chyfrifoldeb am sicrhau cyllid i ddatblygu darpariaeth gwaith ieuenctid.

# LSIYW26
Nodi a sicrhau cyllid ac adnoddau ar gyfer gwaith ieuenctid

## Performance criteria

*You must be able to:*

| | |
|---|---|
| P1 | nodi'r cyllid, rolau ac adnoddau eraill sydd eu hangen i gyflenwi rhaglen gwaith ieuenctid arfaethedig y sefydliad |
| P2 | sefydlu rhestr gyfredol a chywir o unigolion a sefydliadau sy'n darparu adnoddau ar hyn o bryd, ac a allai ddarparu adnoddau ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol |
| P3 | nodi ffynonellau cyllid posibl ac adnoddau eraill sydd eu hangen, gan ystyried eu hamcanion, buddiannau ac unrhyw gostau a risgiau |
| P4 | datblygu cynigion ac argymhellion gyda chostau llawn ar gyfer caffael cyllid ac adnoddau eraill sydd eu hangen i gyflenwi rhaglenni gwaith ieuenctid arfaethedig |
| P5 | paratoi cynigon sy'n rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen, yn cynnwys yr amcanion, rhesymeg ac arddangos y galluoedd sydd eu hangen |
| P6 | cytuno ar gynigion ac argymhellion gyda rhanddeiliaid perthnasol |
| P7 | sicrhau cyflwyniad prydlon cynigion neu geisiadau clir i ddarparwyr cyllid ac adnoddau eraill posibl |
| P8 | mynd i'r afael â cheisiadau am ragor o wybodaeth ac eglurhad yn brydlon a chywir |
| P9 | cytuno ar drefniadau cytundebol gyda darparwyr sy'n amlinellu'n glir a chywir amodau'r ddarpariaeth adnoddau |
| P10 | hysbysu'r holl bartïon perthnasol yn brydlon parthed canlyniad y cynnig |
| P11 | sicrhau bod pawb sy'n gwneud defnydd o'r adnoddau yn deall yn glir unrhyw amodau yn gysylltiedig â'i ddefnydd |
| P12 | datblygu cynlluniau wrth gefn i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau parthed y cyllid ac adnoddau sydd eu hangen |
| P13 | monitro effeithiolrwydd y broses ffynonellu, a nodi a gwneud newidiadau lle bo angen er mwyn gwella'r broses yn y dyfodol |

# LSIYW26
Nodi a sicrhau cyllid ac adnoddau ar gyfer gwaith ieuenctid

## Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

| | |
|---|---|
| K1 | canllawiau a chodau ymarfer ac unrhyw ofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a moesegol parthed mathau a darparwyr cyllid ar gyfer gwaith ieuenctid |
| K2 | amcanion, cynlluniau ac adnoddau eich sefydliad |
| K3 | gweithgareddau arfaethedig eich sefydliad, yn cynnwys y rhai sydd angen cyllid ac adnoddau |
| K4 | rhanddeiliaid y sefydliad a'u barn parthed ariannu gweithgareddau'r sefydliad |
| K5 | mathau a darparwyr presennol cyllid ac adnoddau eraill a ddefnyddir gan eich sefydliad, a mathau eraill posibl o ddarparwyr cyllid a'u manteision a risgiau cysylltiedig |
| K6 | polisïau a gweithdrefnau sefydliadol ar gaffael adnoddau, yn cynnwys y meini prawf ar gyfer dethol mathau a darparwyr cyllid ac adnoddau eraill sy'n briodol i anghenion sefydliadol a barn rhanddeiliaid |
| K7 | ffynonellau gwybodaeth ar gyfleoedd adnoddau, yn cynnwys y rhai yn y sectorau statudol, preifat, gwirfoddol ac elusennol |
| K8 | sut i wneud achos busnes a hyrwyddo buddiannau'r prosiect/au gwaith ieuenctid arfaethedig, ac sy'n adeiladu ar hanes profedig eich sefydliad |
| K9 | cwmpas, adnoddau sydd ar gael a diben y corff ariannu yr eir ato, ac unrhyw gyfyngiadau ar eu gweithredu |
| K10 | pa wybodaeth sy'n ofynnol gan y corff ariannu a'r fformat cywir ar gyfer cyflwyno'r cynnig |
| K11 | pobl berthnasol yn eich sefydliad a rhanddeiliaid allweddol y dylid ymgynghori â hwy ar gynigion ac argymhellion i gaffael cyllid ac adnoddau |
| K12 | pwysigrwydd ymgynghori gyda phobl berthnasol yn eich sefydliad a rhanddeiliaid allweddol ar gynigion ac argymhellion i gaffael cyllid ac adnoddau |
| K13 | pwysigrwydd cyflwyno cynigion clir ar gyfer ceisiadau i ddarparwyr cyllid ac adnoddau eraill, a chaniatáu digon o amser i'w cyflwyno a'u hystyried |
| K14 | y math o gytundebau y dylid eu sefydlu gyda darparwyr cyllid a beth ddylent eu cynnwys |
| K15 | y mathau o gamau a allai fod angen eu cymryd os bydd diffyg mewn cyllid |
| K16 | pam ei bod yn angenrheidiol i sefydlu cynlluniau wrth gefn parthed caffael cyllid a'r math o argyfyngau all godi |
| K17 | gwerthoedd ac egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid |

# LSIYW26
Nodi a sicrhau cyllid ac adnoddau ar gyfer gwaith ieuenctid

## Additional Information

### Values

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o'r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy'n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau'n gysylltiedig. Mae'r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i'r gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu'r safon hon. Mae'r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy'n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol.

### Behaviours

1. Cydymffurfio gyda, a sicrhau bod eraill yn cydymffurfio gyda, gofynion cyfreithiol perthnasol a pholisïau sefydliadol
2. Dangos sensitifrwydd tuag at anghenion a buddiannau rhanddeiliaid, a rheoli'r rhain yn effeithiol
3. Cyflwyno gwybodaeth yn glir, yn gryno ac yn gywir
4. Dangos cywirdeb, tegwch a chysondeb wrth wneud penderfyniadau
5. Gweithio o fewn ffiniau eich awdurdod

**LSIYW27**

# Hwyluso ac ymgysylltu pobl ifanc yn natblygiad strategol a chyflawniad gwaith ieuenctid

## Overview

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr ieuenctid sy'n ymgysylltu â phobl ifanc er mwyn hysbysu datblygiad strategol a chyflawniad gwaith ieuenctid yn eu sefydliad.

Mae'r safon hon yn cwmpasu helpu pobl ifanc i ystyried ffactorau sy'n effeithio ar y penderfyniadau i'w gwneud a sicrhau eu bod wedi eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau ac mewn asesu effaith a risgiau cysylltiedig â'r penderfyniadau.

Mae cyfranogiad ac ymglymiad gweithredol pobl ifanc yn rhai o'r gwerthoedd allweddol sy'n sail i'r safon hon, a rhai y mae disgwyl i weithiwyr ieuenctid wybod amdanynt a'u defnyddio yn eu hymarfer.

# LSIYW27
## Hwyluso ac ymgysylltu pobl ifanc yn natblygiad strategol a chyflawniad gwaith ieuenctid

### Performance criteria

*You must be able to:*

P1 ymgysylltu â phobl ifanc a'u hannog i fynegi eu barn parthed darpariaeth gwaith ieuenctid yn eu cymuned, a'i gysylltu i'w hanghenion a'u dyheadau eu hunain

P2 archwilio a nodi gyda phobl ifanc eu blaenoriaethau ac effaith y rhain ar gyfer y gwasanaethau gwaith ieuenctid hyn

P3 hwyluso dealltwriaeth pobl ifanc o'r ffactorau sy'n effeithio ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid presennol ac yn y dyfodol yn eu cymuned, yn cynnwys niferoedd y bobl ifanc, tueddiadau demograffig, buddiannau a galw am wasanaethau gwaith ieuenctid, cyfleusterau cystadleuol, adnoddau sydd ar gael a buddiannau'r gymuned ehangach

P4 nodi gyda phobl ifanc unrhyw newidiadau yn agweddau ac ymddygiad y gymuned oedolion a fyddai'n galluogi pobl ifanc i wella eu cyfraniad i'r gymuned

P5 cytuno gyda phobl ifanc ar y meysydd blaenoriaeth i fod yn ffocws adnoddau'r sefydliad, ynghyd â rhesymeg a gytunwyd

P6 hwyluso archwiliad pobl ifanc o opsiynau ar gyfer gweithgareddau gwaith ieuenctid a rhaglenni er mwyn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a gytunwyd

P7 archwilio a chytuno ar yr opsiwn(opsiynau) a ffefrir gyda phobl ifanc

P8 ymgysylltu a chynnwys pobl ifanc wrth weithio gyda rhanddeiliaid ac asiantaethau perthnasol i gynllunio a chyflawni'r opsiwn(opsiynau) a ffefrir

P9 gweithio gyda phobl ifanc i gytuno ar y gweithredoedd ac adnoddau sydd eu hangen i roi'r opsiwn(opsiynau) a ffefrir, ac i nodi eu hymglymiad a'u cyfranogiad

P10 cytuno gyda phobl ifanc ar fesurau perfformiad allweddol a dulliau ar gyfer monitro a gwerthuso'r gweithredu a'r rhaglenni a gytunwyd

**LSIYW27**

# Hwyluso ac ymgysylltu pobl ifanc yn natblygiad strategol a chyflawniad gwaith ieuenctid

## Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

K1 gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol sy'n effeithio ar waith ieuenctid
K2 pwysigrwydd cynnwys pobl ifanc yn natblygiad strategol a chyflawniad gwaith ieuenctid, a'r dulliau ar gyfer cyflawni hyn
K3 pwysigrwydd cyfathrebu'n effeithiol gyda phobl ifanc, a sut i wneud hyn ar draws amrywiaeth o grwpiau o bobl ifanc
K4 cymuned leol eich hun, y ffactorau sy'n effeithio ar y galw am waith ieuenctid ac anghenion a disgwyliadau pobl ifanc yn y gymuned leol
K5 ffactorau i'w hystyried wrth broffilio gwahanol gymdogaethau
K6 asiantaethau eraill sy'n ymwneud mewn gwaith ieuenctid yn eich cymuned, a nodweddion allweddol eu rhaglenni
K7 prif ffactorau sy'n effeithio ar y tebygolrwydd o gael cefnogaeth i waith ieuenctid mewn cymunedau ac ymhlith unigolion a sut i nodi ac asesu'r ffactorau hyn
K8 anghenion a disgwyliadau eich sefydliad ac asiantaethau eraill, sy'n berthnasol i ddarparu rhaglenni gwaith ieuenctid
K9 ffynonellau gwybodaeth all gynorthwyo i flaenoriaethu adnoddau
K10 pwysigrwydd ymgynghori â phartneriaid, darparwyr ac asiantaethau eraill wrth geisio cytuno ar feysydd blaenoriaeth a rhaglenni gwaith ieuenctid cysylltiedig
K11 pwysigrwydd ymgynghori â chydweithwyr, rhanddeiliaid a phobl ifanc yn ystod datblygiad cynlluniau gwaith a rhaglenni gwaith ieuenctid
K12 dulliau ac offer ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol, a ffactorau sydd angen eu hystyried wrth weithio gydag eraill
K13 sut i nodi risgiau posibl parthed cyflawniad nodau
K14 sut i ddatblygu mesurau a dulliau i fonitro a gwerthuso llwyddiant rhaglenni gwaith ieuenctid
K15 pwysigrwydd rhannu gwybodaeth rhwng unigolion ac asiantaethau
K16 dulliau ar gyfer lledaenu ymarfer effeithiol mewn gwaith ieuenctid
K17 egwyddorion cyfrinachedd, a sut i ddatblygu canllawiau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth
K18 gwerthoedd ac egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid

# LSIYW27
Hwyluso ac ymgysylltu pobl ifanc yn natblygiad strategol a chyflawniad gwaith ieuenctid

## Additional Information

### Values

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o'r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy'n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau'n gysylltiedig. Mae'r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i'r gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu'r safon hon. Mae'r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy'n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol.

### Behaviours

1. Trin pobl ifanc â pharch
2. Cydnabod a dathlu mewnwelediad a mewnbwn pobl ifanc yn natblygiad strategol a chyflawniad gwaith ieuenctid
3. Creu a chydnabod datrysiadau creadigol
4. Creu naws o bwrpas cyffredin
5. Canfod dulliau ymarferol i oresgyn rhwystrau
6. Cyfathrebu mewn arddull ac ar gyflymder sy'n hyrwyddo dealltwriaeth

# LSIYW28
## Gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau i wella cyfleoedd datblygu i bobl ifanc

### Overview

Mae’r safon hon yn ymwneud â gweithio cydweithredol er mwyn darparu’r canlyniadau gorau posibl i bobl ifanc. Rhan allweddol o weithio cydweithredol yw datblygu perthynas weithredol gydag asiantaethau, partneriaid, darparwyr a rhanddeiliaid perthnasol er mwyn gwella darpariaeth a chyfleoedd gwaith ieuenctid i bobl ifanc yn y gymuned.

Yn y safon hon defnyddir y term ‘sefydliadau eraill’ i gyfeirio at yr holl asiantaethau, partneriaid a darparwyr addas a pherthnasol, yn cynnwys cymunedau lleol a’u cynrychiolwyr, sy’n allanol i’ch sefydliad.

Mae’r safon hon ar gyfer gweithwyr ieuenctid sy’n gweithio gydag asiantaethau a rhanddeiliaid eraill tuag at wella darpariaeth gwaith ieuenctid a chyfleoedd i bobl ifanc.

# LSIYW28
## Gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau i wella cyfleoedd datblygu i bobl ifanc

### Performance criteria

*You must be able to:*

P1 nodi asiantaethau, partneriaid a darparwyr lleol ac aelodau/cynrychiolwyr y gymuned mae eich sefydliad yn dymuno gweithio gyda hi, i wella cyfleoedd i bobl ifanc weithio yn y gymuned

P2 nodi sefydliadau eraill gyda'r arbenigedd angenrheidiol allai fod yn addas i allu cyflawni gweithgareddau gwaith ieuenctid perthnasol

P3 nodi nodau ac amcanion sefydliadau a chymunedau eraill sy'n berthnasol i wella'r cyfleoedd i bobl ifanc

P4 asesu pa mor briodol, effeithiol a chydweithredol yw cysylltiadau allweddol mewn sefydliadau eraill, a phennu a yw'r bartneriaeth yn addas i'r diben

P5 cytuno gyda chydweithwyr ar gamau i wella'r berthynas weithredol gyda sefydliadau a chymunedau eraill, lle pennwyd y gellir gwella partneriaethau presennol

P6 archwilio gyda sefydliadau eraill perthnasol natur, diben a deilliannau gweithgareddau a'r bobl ifanc sy'n debygol o gymryd rhan, yn cynnwys hyd o ran amser a chefnogaeth i'r gweithgareddau

P7 cydbwyso anghenion a disgwyliadau sefydliadau eraill ac ennill eu cefnogaeth

P8 sefydlu a chytuno gyda sefydliadau eraill nodau a rennir i fod o fudd i bobl ifanc, a datblygu ymagweddau cyd-drefnedig i wella cyfleoedd i bobl ifanc tuag at nodau cyffredin

P9 cytuno ar drefniadau gwaith, amserlen a chyfrifoldebau i gyflawni'r gweithredoedd

P10 nodi a chytuno ar fesurau a dulliau perfformiad allweddol ar gyfer monitro a gwerthuso'r gweithredoedd a gytunwyd er mwyn datblygu perthynas waith effeithiol gyda sefydliadau a chymunedau eraill

P11 nodi'r wybodaeth y mae sefydliadau eraill ei hangen gan eich sefydliad a darparu gwybodaeth briodol i'r rhai sydd ei hangen, gan sicrhau ei bod yn berthnasol, yn amserol, a bod agweddau allweddol wedi eu nodi yn glir

P12 hyrwyddo gwerth ymgysylltu gyda sefydliadau eraill i wella'r cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc

P13 cynnal cyfrinachedd yn unol â gofynion rheoleiddiol a sefydliadol

# LSIYW28

Gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau i wella cyfleoedd datblygu i bobl ifanc

## Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

| | |
|---|---|
| K1 | canllawiau cyfreithiol, rheoleiddiol a chysylltiedig sy’n berthnasol i weithio gyda phobl ifanc, yn cynnwys y cyd-destun lleol, cymdeithasol a gwleidyddol |
| K2 | y sefydliadau eraill, yn cynnwys asiantaethau, partneriaid a darparwyr perthnasol, a chynrychiolwyr cymunedol yn eich cymuned, sy’n gallu darparu gwybodaeth a chymryd camau tuag at wella cyfleoedd i bobl ifanc, eu strwythurau, a phwy i gysylltu â hwy pan yn ystyried materion strategol a gweithredol |
| K3 | nodau ac amcanion y prif sefydliadau sy’n gweithredu o fewn eich cymuned sy’n berthnasol i wella cyfleoedd datblygu ar gyfer pobl ifanc |
| K4 | pwysigrwydd ystyried diwylliant a gwerthoedd sefydliadau eraill, yn arbennig parthed eu blaenoriaethau i weithio gyda phobl ifanc |
| K5 | y rhesymau pam y gall fod gwrthdaro a chamddealltwriaeth rhwng gwahanol sefydliadau, er enghraifft, parthed pa weithgareddau sydd bwysicaf |
| K6 | sut i herio’n adeiladol sefydliadau nad ydynt yn cydweithredu â'ch sefydliad eich hun |
| K7 | pam ei bod yn bwysig nodi rhanddeiliaid allweddol o fewn sefydliadau perthnasol eraill |
| K8 | natur a chwmpas darpariaeth gwaith ieuenctid yn eich cymuned eich hun |
| K9 | problemau, anghenion a dyheadau pobl ifanc yn y gymuned sy’n berthnasol i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc, yn cynnwys gwella darpariaeth gwaith ieuenctid |
| K10 | pwysigrwydd rhwydweithiau effeithiol, a chynllunio tymor hir a chanolig i gynnal cysylltiadau effeithiol mewn sefydliadau eraill |
| K11 | sut i ddirprwyo cyfrifoldebau a dyrannu adnoddau wrth adeiladu rhwydweithiau |
| K12 | egwyddorion cyfathrebu effeithiol a sut i’w cymhwyso’n effeithiol gyda sefydliadau, cymunedau ac unigolion eraill |
| K13 | pa wybodaeth sy’n briodol i’w darparu i sefydliadau a chymunedau eraill a pryd mae angen ei ddarparu |
| K14 | eich gweithdrefnau sefydliadol a chyfreithiol parthed cyfrinachedd, diogelu data a datgeliadau adroddadwy |
| K15 | gwerthoedd ac egwyddorion sy’n sail i waith ieuenctid |

# LSIYW28
## Gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau i wella cyfleoedd datblygu i bobl ifanc

## Additional Information

### Values

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o'r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy'n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau'n gysylltiedig. Mae'r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i'r gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu'r safon hon. Mae'r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy'n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol.

### Behaviours

1. Arddangos ymddygiad sy'n dangos parch, cymwynasgarwch a chydweithrediad
2. Anrhydeddu ymrwymiadau a wnaed i gynrychiolwyr mewn asiantaethau eraill
3. Cymryd cyfrifoldeb personol dros wneud i bethau ddigwydd

**LSIYW29**
# Monitro a gwerthuso ansawdd gweithgareddau gwaith ieuenctid

## Overview

Mae’r safon yn ymwneud â monitro a gwerthuso ansawdd gweithgareddau a rhaglenni gwaith ieuenctid. Mae’n cynnwys rhoi lle llawn i bobl ifanc yn y broses, ynghyd ag unrhyw gydweithwyr, rhanddeiliaid neu sefydliadau eraill sy’n ymwneud â’r gwaith ieuenctid sy’n cael ei fonitro.

Yn y safon hon defnyddir y term ‘sefydliadau eraill’ i gyfeirio at yr holl asiantaethau partneriaid a darparwyr addas a pherthnasol, yn cynnwys cymunedau lleol, allanol i’ch sefydliad eich hun.

Mae’r safon hon ar gyfer gweithwyr ieuenctid sy’n ymwneud mewn gweithio gyda phobl ifanc i fonitro a gwerthuso ansawdd gwaith ieuenctid.

# LSIYW29
## Monitro a gwerthuso ansawdd gweithgareddau gwaith ieuenctid

### Performance criteria

*You must be able to:*

P1 nodi gyda phobl ifanc yr amcanion a sefydlwyd ar gyfer y gweithgareddau gwaith ieuenctid a phennu meini prawf i werthuso'r deilliannau a'r dulliau a'r dystiolaeth sydd eu hangen i fonitro cynnydd

P2 gweithio gyda phobl ifanc i fonitro'r gweithgareddau gwaith ieuenctid a'r gefnogaeth a ddarperir i bobl ifanc gan eich sefydliad, gan nodi unrhyw faterion sy'n codi a mynd i'r afael â'r rhain yn brydlon a chywir

P3 archwilio canfyddiadau o bobl ifanc parthed ansawdd gwaith ieuenctid a ddarperir

P4 annog eraill sy'n ymwneud â'r gwaith ieuenctid a chyflawniad gweithgareddau a rhaglenni i ddarparu adborth a thystiolaeth ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion a gytunwyd

P5 adolygu'r deilliannau a gyflawnwyd gan y gweithgareddau gwaith ieuenctid gyda'r bobl ifanc dan sylw, gydag eraill sy'n ymwneud â chyflawni'r gweithgareddau

P6 archwilio'r deilliannau a gyflawnwyd gyda phobl ifanc, gan gymharu'r rhain â'r amcanion ar gyfer y rhaglenni a'r gwerthusiad a gytunwyd a meini prawf tystiolaeth, gan nodi llwyddiannau a'r gwersi a ddysgwyd

P7 nodi unrhyw rwystrau a lesteiriodd lwyddiant y gweithgareddau gwaith ieuenctid, a phenderfynu sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain yn adeiladol

P8 defnyddio tystiolaeth i gytuno sut y gellir gwella gweithgareddau gwaith ieuenctid yn y dyfodol

P9 darparu tystiolaeth a gwybodaeth parthed gweithgareddau gwaith ieuenctid a oedd yn effeithiol i eraill, gan amlinellu a hyrwyddo'n glir natur y gweithgareddau a pham eu bod wedi cyflawni eu hamcanion

P10 cynnal cofnodion cywir a chyfredol o'r dystiolaeth, casgliadau, canlyniadau ac argymhellion a gytunwyd

P11 gwneud tystiolaeth a gwybodaeth berthnasol ar gael i eraill, tra'n sicrhau y cynhelir cyfrinachedd yn unol â gofynion sefydliadol a statudol

# LSIYW29
Monitro a gwerthuso ansawdd gweithgareddau gwaith ieuenctid

## Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

- K1 gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol sy'n berthnasol i waith ieuenctid, a'u heffaith yn eu maes gwaith eich hun
- K2 pwysigrwydd monitro a gwerthuso effaith gweithgareddau gwaith ieuenctid, a sut i wneud hyn yn cynnwys y dystiolaeth sydd ei hangen
- K3 pwysigrwydd cynnwys pobl ifanc, cydweithwyr, rhanddeiliaid a sefydliadau perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r gweithgareddau, a dulliau ar gyfer sicrhau eu hymglymiad
- K4 dangosyddion, tystiolaeth a meini prawf sy'n effeithiol ar gyfer gwerthuso deilliannau a llwyddiant gweithgareddau gwaith ieuenctid
- K5 sut i osod amcanion a meini prawf er mwyn gwerthuso llwyddiant gweithgareddau gwaith ieuenctid
- K6 ffynonellau tystiolaeth a gwybodaeth sy'n briodol i fonitro gweithgareddau gwaith ieuenctid, sut i gyrchu'r rhain a dulliau ar gyfer dilysu a chadarnhau'r wybodaeth
- K7 sut i wahaniaethu rhwng tystiolaeth a welwyd yn uniongyrchol, tystiolaeth o ffynonellau dibynadwy a sibrydion
- K8 sut i wahaniaethu rhwng rhagfarn a barn a gefnogir gan dystiolaeth
- K9 amcanion eich sefydliad parthed darpariaeth gwaith ieuenctid a'r gweithgareddau a'r rhaglenni cysylltiedig
- K10 pwysigrwydd hyrwyddo llwyddiant gwaith ieuenctid, a dulliau o gyflawni hyn, yn cynnwys lledaenu arfer gwaith ieuenctid effeithiol
- K11 eich rôl a'ch cyfrifoldebau chi a gan bwy y gellir ceisio cymorth a chyngor
- K12 gwerthoedd ac egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid]

# LSIYW29
Monitro a gwerthuso ansawdd gweithgareddau gwaith ieuenctid

## Additional Information

### Values

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o'r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy'n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau'n gysylltiedig. Mae'r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i'r gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu'r safon hon. Mae'r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy'n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol.

### Behaviours

1. Cyfathrebu gydag eraill mewn dull cadarnhaol ac adeiladol, cydnabod eu cyfraniad, eu meysydd arbenigedd, a'u rôl fel partneriaid yn y broses
2. Ceisio deall anghenion a chymhelliannau pobl eraill
3. Cyflwyno gwybodaeth yn glir, yn gryno ac yn gywir
4. Trin pobl ifanc â pharch

**LSIYW30**
# Gweithio fel ymarferydd gwaith ieuenctid effeithiol a myfyriol

## Overview

Mae'r safon hon yn ymwneud â myfyrio ar eich effeithiolrwydd eich hun fel ymarferydd gwaith ieuenctid, nodi ffyrdd y gallwch wella eich ymarfer a gweithredu'n briodol i gynnal datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r safon ar gyfer pob ymarferydd gwaith ieuenctid.

# LSIYW30
Gweithio fel ymarferydd gwaith ieuenctid effeithiol a myfyriol

## Performance criteria

*You must be able to:*

P1 adolygu'n barhaus gofynion presennol ac yn y dyfodol eich rôl eich hun yn unol â gofynion deddfwriaethol a gwerthoedd ac egwyddorion gwaith ieuenctid

P2 myfyrio ar eich gwerthoedd, eich diddordebau a'ch blaenoriaethau parthed y bobl ifanc yr ydych yn gweithio gyda hwy

P3 monitro deilliannau eich ymarfer eich hun a nodi meysydd i'w datblygu a'u gwella

P4 nodi bylchau yn eich gwybodaeth a'ch sgiliau eich hun a chytuno ar flaenoriaethau ac amcanion datblygu i fynd i'r afael â'r bylchau hynny

P5 myfyrio ar, adolygu'n barhaus a diweddaru eich blaenoriaethau a'ch amcanion datblygu eich hun i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar wella canlyniadau ar gyfer pobl ifanc

P6 cymhwyso casgliadau eich myfyrio a'ch datblygiad i wella'ch ymarfer eich hun mewn cynnal gwerthoedd ac egwyddorion gwaith ieuenctid

P7 sicrhau bod eich perfformiad yn bodloni gofynion ymarferydd gweithiwr ieuenctid cymwys yn gyson, gan gymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd gwendid

P8 gwneud y defnydd gorau o gefnogaeth a chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus

# LSIYW30
Gweithio fel ymarferydd gwaith ieuenctid effeithiol a myfyriol

## Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

K1 y gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sylfaen i ymarfer gwaith ieuenctid
K2 gwerthoedd, amcanion a blaenoriaethu eich sefydliad eich hun
K3 eich gwerthoedd, diddordebau a'ch blaenoriaethau a sut mae'r rhain yn effeithio ar eich ymarfer a'r bobl ifanc yr ydych yn gweithio gyda hwy
K4 gofynion eich rôl gwaith, a ffiniau eich cyfrifoldeb a'ch awdurdod
K5 ffyrdd i fyfyrio ar eich gwerthoedd, egwyddorion, arferion, cryfderau a meysydd datblygu eich hun
K6 pwysigrwydd adolygu a myfyrio ar eich gwaith eich hun yn rheolaidd a chwilio am ffyrdd i weithio
K7 ffyrdd i gael adborth gwrthrychol gan bobl ifanc, cydweithwyr a phartneriaid ar eich perfformiad fel gweithiwr ieuenctid
K8 sut i nodi blaenoriaethau datblygu personol a phroffesiynol ac amcanion a fydd yn gwella eich cymhwysedd a'ch effeithiolrwydd fel ymarferydd gweithiwr ieuenctid
K9 cyfleoedd dysgu a datblygu sy'n bodloni'r dulliau dysgu a ffefrir gennych a mynd i'r afael â bylchau a nodir yn eich gwybodaeth a'ch sgiliau
K10 mathau o gymorth a chefnogaeth sydd gael i chi ac eraill a sut i'w chyrchu
K11 pwysigrwydd ceisio adborth rheolaidd ar eich ymarfer eich hun gan bobl ifanc, cydweithwyr a phartneriaid a dulliau ar gyfer casglu adborth
K12 sut i adolygu eich blaenoriaethau datblygu a'ch amcanion yn barhaus i sicrhau eu bod yn eich helpu i gynnal gwerthoedd ac egwyddorion gwaith ieuenctid a gwella canlyniadau ar gyfer pobl ifanc
K13 sut i nodi cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a fydd yn gwella eich perfformiad fel ymarferydd gwaith ieuenctid

# LSIYW30
Gweithio fel ymarferydd gwaith ieuenctid effeithiol a myfyriol

## Additional Information

### Values

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o'r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy'n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau'n gysylltiedig. Mae'r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i'r gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu'r safon hon. Mae'r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy'n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol.

### Behaviours

1. Dangos ymwybyddiaeth o'ch gwerthoedd a'ch cymhelliannau eich hun
2. Cytuno ar amcanion cyraeddadwy i chi'ch hun a rhoi perfformiad cyson a dibynadwy
3. Myfyrio'n rheolaidd ar eich profiadau, ac yn defnyddio'r deilliannau hyn i arwain gweithredu yn y dyfodol
4. Gweithredu fel esiampl ar gyfer pobl ifanc, fel bod eich ymddygiad yn annog pobl ifanc i ddatblygu agweddau ac ymddygiad gadarnhaol tuag at eraill a chymdeithas
5. Chwarae i'ch cryfderau, a defnyddio strategaethau priodol i leihau effaith unrhyw gyfyngiadau

# LSIYW31
Darparu cefnogaeth gwaith ieuenctid i weithwyr eraill

## Overview

Mae’r safon hon yn ymwneud â darparu cefnogaeth, mentora a goruchwyliaeth anffurfiol gwaith ieuenctid i weithwyr eraill, yn cynnwys y rheiny nad oes gennych gyfrifoldeb rheoli amdanynt. Mae’n cynnwys rhannu eich ymarfer proffesiynol gwaith ieuenctid eich hun wrth ddarparu cefnogaeth.

Mae’r safon ar gyfer gweithwyr ieuenctid sy’n gweithio gydag eraill i ddarparu gwasanaethau gwaith ieuenctid, a rhoi iddynt gefnogaeth a chyngor heb fod â chyfrifoldebau rheolwr llinell. Mae'n addas ar gyfer gweithwyr ieuenctid sy’n cefnogi eraill i ddatblygu eu hymarfer gwaith ieuenctid.

Yng nghyd-destun y safon hon, gall gweithwyr eraill olygu’r rhai sydd o fewn a thu allan i’ch sefydliad, yn cynnwys rhai sydd efallai heb rôl a chyfrifoldebau gwaith ieuenctid penodol.

# LSIYW31
Darparu cefnogaeth gwaith ieuenctid i weithwyr eraill

## Performance criteria

*You must be able to:*

P1 darparu gweithwyr eraill â chefnogaeth, mentora, goruchwyliaeth anffurfiol a chyngor gwaith ieuenctid pan fyddant ei angen, yn arbennig yn ystod cyfnodau o rwystredigaeth a newid

P2 cymell a chefnogi gweithwyr eraill i gyflawni eu gwaith a'u hamcanion datblygu a dangos cydnabyddiaeth pan fyddant yn llwyddiannus

P3 grymuso eraill yn eich maes gwaith i ddatblygu eu ffyrdd eu hunain o weithio a gwneud eu penderfyniadau eu hunain o fewn ffiniau a gytunwyd

P4 annog gweithwyr eraill i gymryd yr awenau yn eu maes arbenigol a dangos parodrwydd i ddilyn eu harweiniad

P5 ennill ymddiriedaeth a chefnogaeth, trwy berfformiad effeithiol, gan bobl yn eich maes gwaith eich hun

P6 gweithio o fewn unrhyw strwythurau, gweithdrefnau a gofynion sy'n ofynnol yn eich sefydliad ac mewn sefydliadau eraill wrth ddarparu cefnogaeth i weithwyr eraill

P7 gweithio yn unol ag a hyrwyddo gwerthoedd ac egwyddorion sy'n ategu gwaith ieuenctid wrth weithio gydag eraill

# LSIYW31
Darparu cefnogaeth gwaith ieuenctid i weithwyr eraill

## Knowledge and understanding

*You need to know and understand:*

| | |
|---|---|
| K1 | gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol perthnasol i waith ieuenctid, a'u heffaith ar eich maes gweithredu |
| K2 | y gwahaniaethau sylfaenol rhwng rheolaeth a darparu cefnogaeth mewn cymhwyster nad yw'n un rheolwr |
| K3 | y mathau o gefnogaeth y gellir ei darparu megis mentora, goruchwyliaeth anffurfiol a chyngor ymarfer proffesiynol, a sut mae'r rhain yn wahanol |
| K4 | mathau o gefnogaeth a chyngor mae eraill yn debygol o fod eu hangen a sut i ymateb i'r rhain |
| K5 | dulliau o adlewyrchu ymarfer proffesiynol gwaith ieuenctid wrth ddarparu cefnogaeth, mentora neu oruchwyliaeth anffurfiol i weithwyr eraill |
| K6 | gwahanol ddulliau ar gyfer cyfathrebu gydag eraill a sut i ddethol a chymhwyso dulliau yn llwyddiannus mewn gwahanol sefyllfaoedd |
| K7 | y mathau o anawsterau a heriau allai godi, yn cynnwys gwrthdaro yn y maes, a ffyrdd o'u canfod a'u goresgyn |
| K8 | pwysigrwydd annog eraill i arwain a sut y gellir cyflawni hyn |
| K9 | sut i rymuso pobl yn effeithiol |
| K10 | sut i ddethol a chymhwyso'n llwyddiannus y gwahanol ddulliau ar gyfer annog, cymell a chefnogi eraill a chydnabod cyflawniad |
| K11 | eich gwerthoedd, cymellianauac emosiynau |
| K12 | eich rôl, cyfrifoldebau a lefel grym |
| K13 | amcanion cyffredinol eich sefydliad |
| K14 | gwerthoedd ac egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid |

# LSIYW31
Darparu cefnogaeth gwaith ieuenctid i weithwyr eraill

## Additional Information

### Values

Gan weithio gyda chynrychiolwyr o'r sectorau o fewn gwaith ieuenctid, cytunodd LSIS ar gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy'n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gweithgareddau eraill yn ymwneud â phobl ifanc, sydd ar adegau'n gysylltiedig. Mae'r gwerthoedd ac egwyddorion hyn yn ganolog i'r gwaith a wneir o fewn gwaith ieuenctid ac yn ategu'r safon hon. Mae'r ymddygiadau gofynnol yn y safon hon yn cynnwys y rhai sy'n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion penodol.

### Behaviours

1. Annog a chefnogi eraill i wneud y defnydd gorau o'u galluoedd
2. Arddangos ymddygiad sy'n dangos parch, cymwynasgarwch a chydweithio
3. Rhyddhau amser i gefnogi eraill
4. Cyfathrebu'n rheolaidd gyda phawb sy'n gweithio yn eich maes, gan wneud defnydd effeithiol o nifer o ddulliau cyfathrebu, a dangos eich bod yn ystyried yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud
5. Annog a chefnogi eraill i wneud penderfyniadau'n annibynnol
6. Ceisio deall anghenion a chymhelliant pobl
7. Dangos cywirdeb, tegwch a chysondeb wrth wneud penderfyniadau
8. Gweithio o fewn ffiniau eich awdurdod

### Glossary

Mae '**gweithwyr eraill**' yn cynnwys y rheiny sydd o fewn ac/neu tu allan i'r sefydliad, yn cynnwys rhai sydd heb rôl a chyfrifoldebau gwaith ieuenctid penodol.